# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg: *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1TH
e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn Llyw.Cymru/Comisiwn-Cymunedau-Cymraeg

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol **978-1-83715-799-0**
© Hawlfraint y Goron Mai 2025
WG52345

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Egwyddorion Cyffredinol | 3 |
| 3. Cyfrifiad 2021 | 6 |
| 4. Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch | 8 |
| 5. Yr Economi | 11 |
| 6. Gweithleoedd Cymraeg | 18 |
| 7. Datblygu Cymunedol | 21 |
| 8. Tai | 24 |
| 9. Cynllunio Gwlad a Thref | 28 |
| 10. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | 29 |
| 11. Addysg cyfrwng Cymraeg | 32 |
| 12. Cynllunio ieithyddol yn y gymuned | 36 |
| Atodiad 1: Rhestr argymhellion | 39 |

# 1. Cyflwyniad

Fe wnaeth adroddiad *Ail Gartrefi: Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gan Dr Simon Brooks yn 2021, ddangos bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar ein cymunedau Cymraeg. Fodd bynnag, roedd effeithiau'r ailstrwythuro economaidd o ganlyniad i newidiadau yn y dirwedd wleidyddol, pandemig byd-eang a phwysau ariannol ar y sector cyhoeddus yn creu heriau pellach i'r cymunedau hyn. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y bydd ein cymunedau Cymraeg yn wynebu heriau cymdeithasol-ieithyddol parhaus a fydd yn bygwth hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Roedd yr adroddiad yn argymell sefydlu comisiwn annibynnol i archwilio'r heriau hyn ac i wneud argymhellion polisi gyda'r nod o gryfhau cymunedau Cymraeg.

Yn sgil hynny, sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru i edrych ar yr heriau sy'n wynebu'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd traddodiadol. Roedd gan y Comisiwn bedwar amcan allweddol:

i. cynnal dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021
ii. nodi ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol lle gallai fod angen ymyraethau polisi i gefnogi'r iaith
iii. nodi ymyraethau polisi posibl i gefnogi a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol
iv. gwneud argymhellion polisi (ar ffurf adroddiad) mewn perthynas â chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol.

Daw adroddiad '***Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg***' y Comisiwn i gasgliadau yn dilyn dwy flynedd o waith manwl lle bu'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn dadansoddi polisïau a sefyllfa ieithyddol yn helaeth. Canolbwyntiodd y Comisiwn ar y meysydd polisi allweddol a ganlyn: yr economi, gweithleoedd, datblygu cymunedol, tai, cynllunio gwlad a thref, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, addysg cyfrwng Cymraeg a chynllunio ieithyddol cymunedol.

Mae'r adroddiad, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, yn cynnwys 57 o argymhellion. Gan hynny, rydym wedi ystyried yr adroddiad a'i argymhellion yn ofalus ac wedi darparu ein hymateb i'r argymhellion hynny yn y ddogfen hon. Rydym wedi rhoi sylw i'r argymhellion sy'n dod o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn benodol. Fodd bynnag, bydd gofyn i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff perthnasol eraill ystyried a rhoi sylw i rai argymhellion.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi ymateb ar wahân maes o law i'r adroddiad pwrpasol ar Gynllunio Gwlad a Thref, a gyhoeddodd y Comisiwn ym mis Chwefror 2025. Bydd ein hymateb yn mynd i'r afael â'r 14 o argymhellion a wnaed gan y Comisiwn.

Yn olaf, hoffem ddiolch i Dr Simon Brooks, Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac aelodau'r Comisiwn, am eu gwaith manwl, eu hymroddiad a'u harbenigedd wrth gasglu tystiolaeth a pharatoi'r adroddiad. Hoffem hefyd ddiolch i Brosiect BRO am y Compendiwm manwl sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ac i'r nifer a ddarparodd dystiolaeth i gynorthwyo

gwaith y Comisiwn. Mae’r adroddiad wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr, ac mae’r ymrwymiad a’r ymdrech wrth ei baratoi yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr iawn.

Fe wnaethom groesawu cyhoeddi adroddiad *Grymuso cymunedau, cryfhau’r Gymraeg* adeg ei gyhoeddi yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf ym mis Awst 2024.

Mae’r ddogfen hon yn cynrychioli ymateb Llywodraeth Cymru i’r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Comisiwn. Er bod y ddogfen hon yn cynnwys ein hymateb cychwynnol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith mewn gwahanol feysydd polisi. Rydym wedi ymrwymo i barhau â’n hymdrechion i gydweithio i wella a datblygu polisïau a fydd yn cefnogi’r Gymraeg ac yn helpu i gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Er hwylustod, rydym wedi dilyn fformat yr adroddiad wrth ymateb. Rydym yn dechrau ein hymateb gyda chrynodeb o’r bennod a’r prif ganfyddiadau. Yna, rydym yn darparu ein hymateb ac yna’n nodi’r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud a’r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol. Mae rhestr lawn o argymhellion y Comisiwn i’w gweld yn Atodiad 1.

# 2. Egwyddorion cyffredinol

## Crynodeb o bennod Egwyddorion Cyffredinol y Comisiwn Cymunedau Cymraeg:

Mae'r Comisiwn yn pwysleisio rôl ganolog iaith wrth lunio a chynnal cymunedau. Yn benodol, mae'n archwilio deinameg gymdeithasol yr iaith Gymraeg, gan dynnu sylw at ei harwyddocâd fel iaith genedlaethol a'r heriau sy'n ei hwynebu mewn gwahanol gymunedau ledled Cymru. Mae'r Comisiwn yn pwysleisio'r angen am bolisi cyhoeddus effeithiol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i chaffael, tra'n rhoi sylw i faterion cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd cymunedol. Dyma'r prif feysydd trafod:

**Iaith fel Ffenomen Gymdeithasol**: Mae'r Gymraeg yn gyfrwng ar gyfer cyfathrebu ar draws amryw o gyd-destunau cymdeithasol, ac effeithir arni gan ffactorau fel daearyddiaeth, statws economaidd-gymdeithasol, ac oedran. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y Gymraeg yn iaith genedlaethol, sy'n perthyn i'r holl siaradwyr Cymraeg, waeth beth fo'u cyd-destun cymunedol. Bu newid hanesyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg dros nifer o ddegawdau, yn enwedig ers y 1940au, gan arwain at ddirywiad yn y Gymraeg fel iaith gymunedol. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, mae'r Comisiwn o'r farn y gallai'r Gymraeg ddiflannu fel iaith gymunedol sy'n cael ei defnyddio'n eang.

**Cynaliadwyedd Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol**: Mae'r adroddiad yn nodi pwysigrwydd cynnal cymunedau Cymraeg i gynnal a chefnogi caffael a defnyddio'r iaith. Mae hyrwyddo caffael a defnyddio iaith yn effeithiol, cyfiawnder cymdeithasol, a dwysáu ystyriaeth o'r Gymraeg o fewn polisi cyhoeddus yn hanfodol er mwyn sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Yn ogystal, mae dymuniad i hyrwyddo caffael y  Gymraeg yn fwy effeithiol o fewn y system addysg.

**Hawliau Siaradwyr Cymraeg**: Mae'r Comisiwn yn dadlau dros hawliau iaith cyffredinol i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru ac yn cynnig sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er mwyn gallu teilwra polisi cyhoeddus mewn ymateb i newidiadau ieithyddol tuag at y Saesneg. Mae'n dadlau y bydd cryfhau cymunedau Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru, heb danseilio hawliau siaradwyr mewn mannau eraill. Mae'r ffocws ar bolisïau sosioeconomaidd a sosioieithyddol sy'n dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, tra'n cynnal cydbwysedd â pholisïau ehangach ar draws Cymru.

**Effaith yr Argyfwng Hinsawdd**: Mae'r Comisiwn yn trafod sgil-effeithiau posibl yr argyfwng hinsawdd, nid yn unig ar yr amgylchedd ond hefyd ar hunaniaethau cymdeithasol a diwylliannol, yn enwedig ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg. Gallai hyn arwain at y posibilrwydd o fudo, colli diwylliant, a cholli amrywiaeth ieithyddol. Er gwaethaf yr heriau, mae'r Comisiwn o'r farn bod cyfleoedd i ddatblygu arferion cynaliadwy a ffynonellau ynni adnewyddadwy yng ngorllewin Cymru sy'n gallu cynorthwyo ymdrechion i ddiogelu cymunedau ac iaith.

**Mentrau Ymwybyddiaeth Iaith**: I wrthdroi dirywiad y Gymraeg, mae'r Comisiwn yn pwysleisio'r angen am fwy o ymwybyddiaeth o'r iaith ar draws gwahanol ddemograffeg. Mae'n pwysleisio'r angen am ymwybyddiaeth eang o iaith, deall hanes ac arwyddocâd y Gymraeg, a chydnabod y ffactorau a arweiniodd at shifft ieithyddol tuag at y Saesneg. Mae'r adroddiad o blaid datblygu rhaglenni ymwybyddiaeth iaith wedi eu teilwra i gynulleidfaoedd amrywiol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dwyieithrwydd sefydlog a llywio sefyllfaoedd cymdeithasol dwyieithog. Mae hefyd yn awgrymu y gallai Cymru elwa ar gyfnewid gwybodaeth yn rhyngwladol am ymdrechion i gadw ieithoedd yn fyw, yn enwedig yng nghyd-destun ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

**Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynaliadwyedd**: Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn orfodol i gyrff cyhoeddus wella llesiant Cymru. Mae'n sefydlu saith nod llesiant, gan gynnwys hyrwyddo diwylliant bywiog a'r Gymraeg, ac mae'n amlinellu pum cam gweithredu allweddol i gyrff cyhoeddus eu dilyn. Mae'r camau hyn yn nodi pwysigrwydd cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith heddiw i sicrhau cynaliadwyedd yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r argymhellion a ddarperir nid yn unig yn mynd i'r afael â'r anghenion presennol ond hefyd yn cyfrannu at gadw'r iaith yn fyw yn y tymor hir.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**: Mae'r Comisiwn yn trafod yr amrywiaeth o fewn y grŵp o siaradwyr Cymraeg, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod a pharchu gwahanol hunaniaethau y tu hwnt i rai ieithyddol. Noda'r adroddiad fod rhai grwpiau o fewn y gymuned hon wedi wynebu gwahaniaethu, gan bwysleisio'r angen i gynllunio ieithyddol fynd i'r afael â'r anfanteision parhaus hyn a sicrhau bod yr holl siaradwyr yn cael eu parchu ac yn gallu mynegi eu hunaniaeth.

**Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Dosbarth Cymdeithasol**: Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gydberthynas rhwng iaith a dosbarth cymdeithasol, gan nodi bod y Gymraeg yn colli tir ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol llai breintiedig. Mae'r Comisiwn yn pwysleisio'r angen i gynllunio ieithyddol fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn rhwng dosbarthiadau cymdeithasol a chynnwys grwpiau sydd â chyfalaf economaidd a diwylliannol llai, yn enwedig mewn ardaloedd trefol Cymraeg eu hiaith.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, ble bynnag maent yn byw. Rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r iaith yng Nghymru yn ogystal ag yn rhyngwladol.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg*, yn cadarnhau ein hymrwymiad i'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn benodol er mwyn deall yn well yr heriau sy'n wynebu'r iaith fel iaith gymunedol. Mae canfyddiadau ac argymhellion y Comisiwn yn cryfhau ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n rhaid ei gyflawni er mwyn diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ar gyfer y dyfodol.

I'n helpu i ddeall y shifft ieithyddol sy'n digwydd yn ein cymunedau Cymraeg, rydym yn darparu cyllid i Brosiect BRO, sy'n brosiect ymchwil sosioieithyddol cynhwysfawr o dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru), Prifysgol Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban (Sefydliad Gwyddorau Iaith) a Phrifysgol Rhydychen (Coleg Iesu). Byddwn yn ymateb i gasgliadau Prosiect BRO ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn 2026.

# 3. Cyfrifiad 2021

## Crynodeb o bennod Cyfrifiad 2021:

Fel rhan o'i gylch gorchwyl, gofynnwyd i'r Comisiwn ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 er mwyn deall sefyllfa bresennol y Gymraeg. Cyhoeddodd y Comisiwn gasgliad o ystadegau demograffig ac ieithyddol a thueddiadau allweddol yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 yn ei adroddiad. Cynhyrchwyd y Compendiwm drwy Brosiect BRO, sef prosiect ymchwil sosioieithyddol.

Mae'r data yn dangos mai Gwynedd ac Ynys Môn yw'r awdurdodau lleol sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, mae dros 40% o'r trigolion yn gallu siarad Cymraeg mewn dros hanner yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (Lower Layer Super Output Areas). Mae'r data hefyd yn dangos bod cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg ymysg yr uchaf yn rhai o'r ardaloedd hyn yn gyffredinol.

Conwy yw'r awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf nesaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lle mae 40% neu fwy o'r trigolion yn gallu siarad Cymraeg. Ceir hefyd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Benfro, Sir Ddinbych, Powys a Chastell-nedd Port Talbot, lle gall dros 40% siarad Cymraeg.

Rhwng 2001 a 2021, mae Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi gweld canran y siaradwyr Cymraeg yn gostwng. Fodd bynnag, mae'r data yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn gyson uwch na'r ganran gyfatebol o'r boblogaeth.

Yn olaf, bu'r Comisiwn yn archwilio'r canfyddiad a geir mewn trafodaethau cyhoeddus yng Nghymru bod siaradwyr Cymraeg fel grŵp yn gymharol freintiedig. Daethpwyd i'r casgliad, fodd bynnag, lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, nad yw hynny'n ymddangos yn wir. Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu tangynrychioli mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch o'u cymharu â chategorïau economaidd-gymdeithasol eraill yn Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag, nid yw'r anfantais hon yn absoliwt, a thynnodd y Comisiwn sylw hefyd at y ffaith, er bod Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn wynebu rhywfaint o anfantais economaidd strwythurol, bod canran y siaradwyr Cymraeg yng nghategorïau NS-SEC L14.1 ac L14.2 (erioed wedi gweithio ac yn ddi-waith yn y tymor hir) gryn dipyn yn is na'r ganran o siaradwyr Cymraeg mewn categorïau eraill. Mae'r data a'r Comisiwn felly'n awgrymu bod y grŵp Cymraeg ei iaith, i raddau, yn dargyfeirio ar hyd llinellau o ddosbarth cymdeithasol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19, ar 21/03/2021. Roedd hyn yn dilyn cyfnodau o gyfyngiadau symud, dysgu o bell i blant a llawer o bobl yn gweithio gartref.

Nid ydym yn gwybod sut y gall y pandemig fod wedi effeithio ar allu pobl yn y Gymraeg (nac ar ganfyddiad pobl o'u gallu yn y Gymraeg), yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg, neu ar ganfyddiad rhieni neu warcheidwaid o sgiliau Cymraeg plant a phobl ifanc yn yr ardaloedd hynny.

Rydym yn ystyried y cyfrifiad fel y brif ffynhonnell o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data eraill sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr a mwy cyson ar y defnydd o'r Gymraeg a medrusrwydd yn yr iaith.

Mae'r rhain yn cynnwys arolygon fel Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n adrodd yn rheolaidd ar sgiliau iaith Gymraeg, amlder defnyddio a rhuglder y boblogaeth. Mae data gweinyddol sy'n canolbwyntio ar addysg o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion yn cynnig cipolwg blynyddol ar alluoedd Cymraeg disgyblion a staff ysgolion, yn ogystal ag i ba raddau y caiff y Gymraeg ei defnyddio neu ei haddysgu mewn ysgolion. Yn ogystal, mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu gwybodaeth gyd-destunol gyfoethocach am sut a ble y caiff y Gymraeg ei siarad.

Er nad oes modd cymharu'r ffynonellau hyn yn uniongyrchol â'r cyfrifiad oherwydd gwahaniaethau methodolegol, maent yn hanfodol ar gyfer monitro tueddiadau a chefnogi polisi iaith rhwng blynyddoedd y cyfrifiad.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Prosiect BRO ar y cyd â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban a Choleg Crist Rhydychen. Bydd y prosiect ymchwil sosioieithyddol arloesol hwn yn rhoi cyfle i ni ddeall natur y newid ieithyddol sy'n digwydd yng Nghymru yn well ar lefel gymunedol. Bydd yn rhoi dealltwriaeth i ni er mwyn gallu mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau.
- Bydd Prosiect BRO yn ychwanegu gwerth at waith ehangach y Llywodraeth gan y bydd y dadansoddiadau'n cyfrannu at lunio ymyraethau polisi mwy effeithiol i ddiogelu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau.
- Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i archwilio sut gallwn ni ddeall yn well y gwahaniaethau mewn amcangyfrifon o nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws gwahanol arolygon a ffynonellau data.
- Fel rhan o'r cynllun gwaith ar y cyd hwn, rydym wedi cyhoeddi erthygl ystadegol sy'n edrych ar anghysondebau rhwng y cyfrifiad a'r Arolwg o'r Llafurlu, y seilir yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth arno, wrth amcangyfrif nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, nid yn unig i nodi sut mae'r ffynonellau data hyn yn wahanol, ond hefyd i archwilio'r rhesymau sylfaenol dros y gwahaniaethau hynny. Bydd y gwaith parhaus hwn yn chwarae rhan hollbwysig wrth siapio dyfodol ystadegau ar yr iaith Gymraeg.

# 4. Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

## Crynodeb o'r bennod ar Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

Yn ei bennod ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch (Argymhelliad 2 – 8), mae'r Comisiwn yn cydnabod bod dwysedd siaradwyr Cymraeg yn hanfodol bwysig ar gyfer defnydd iaith ar lefel gymunedol. Er gwaethaf y gydnabyddiaeth gynyddol o'r Gymraeg yn genedlaethol, gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg traddodiadol. Mae'r Comisiwn yn datgan bod hyn yn peri risg i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol, ac o ganlyniad fel iaith genedlaethol hefyd.

Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd amrywio polisi er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol cymunedau Cymraeg dwysedd uchel eu hiaith yn helpu i sicrhau eu cynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae'r meysydd polisi hyn yn cynnwys datblygu economaidd, datblygu cymunedol, tai, cynllunio gwlad a thref, ac addysg. Mae'r Comisiwn yn nodi na fydd angen amrywio pob polisi cyhoeddus ac yn credu y dylid cymhwyso polisïau ynghylch statws y Gymraeg a hawliau siaradwyr Cymraeg er enghraifft ar lefel Cymru gyfan.

Er mwyn galluogi a hwyluso amrywio polisi, mae'r Comisiwn o'r farn y dylai cymunedau â dwysedd uchel neu gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg gael eu dynodi'n 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' [Argymhelliad 2]. Dylai'r dynodiad hwn fodoli ochr yn ochr ag ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth Cymru i adfywio'r Gymraeg ar draws Cymru gyfan.

Elfen greiddiol o greu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fyddai galluogi rhoi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg fel iaith gymunedol o fewn fframweithiau polisi, gan sicrhau bod newidiadau polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol, a hefyd helpu i rymuso cymunedau i wyrdroi shifft iaith.

Mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylid cynnal y broses o ddynodi ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ar ôl rhoi ystyriaeth drwyadl i sefyllfa'r Gymraeg o fewn ardal leol. Mae'r Comisiwn yn nodi (Argymhelliad 5) y dylai fod yn bosibl gwneud dynodiad gan ddefnyddio un o ddau ddull:

i. Llywodraeth Cymru i osod trothwy ystadegol yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, roedd y Comisiwn yn dadlau y dylid cael rhagdybiaeth o blaid dynodi'r trothwy hwn yn 40% (Argymhelliad 6). Nododd y Comisiwn hefyd na ddylid rhwystro cymunedau rhag cael eu dynodi'n ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os ydynt yn disgyn ychydig o bwyntiau canran o dan y trothwy hwn.

ii. Dylai awdurdodau lleol gael y disgresiwn i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai hyn yn sicrhau elfen bwysig o atebolrwydd lleol mewn polisi iaith ac yn rhoi cyfle i ystyried ffynonellau ystadegol ar wahân i'r cyfrifiad, gwybodaeth leol, yn ogystal

ag awydd cymuned i geisio am ddynodiad. Mae'n bosibl y bydd yn briodol defnyddio disgresiwn lleol i ddynodi ardaloedd sydd, er eu bod o dan y trothwy eu hunain, wedi eu hamgylchynu gan ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid sefydlu fframwaith ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch drwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol newydd [Argymhelliad 7].

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Fel y nodir yn adroddiad y Comisiwn, mae'r Gymraeg yn perthyn i bob cymuned ac awdurdod lleol ledled Cymru. Mae pob ardal ar ei thaith ieithyddol ei hun, ac nid yw'r ffocws yn yr adroddiad ar ardaloedd dwysedd uwch yn golygu nad yw'r iaith yn arwyddocaol ac yn bwysig ar draws Cymru gyfan. Ac felly, bydd ail gam gwaith y Comisiwn yn canolbwyntio ar y Gymraeg fel iaith gymunedol yng ngweddill Cymru a thu hwnt.

Mae'r syniad o sefydlu 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' yn thema allweddol sy'n amlwg yn treiddio drwy'r adroddiad i gyd, ac rydym wedi ystyried y cysyniad yn ofalus.

Mae ein strategaeth Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg*, yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bywyd bob dydd y gymuned. Gan hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 2] yn bwysig er mwyn diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith rhag shifft ieithyddol pellach.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach a manwl i ddeall sut gallai'r dynodiad weithio'n ymarferol [Argymhelliad 3-8], ac  a yw'n briodol ac yn angenrheidiol gosod 'dynodiad ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' ar sail statudol. Bydd dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn gyfrwng pwysig i reoli, adolygu, diwygio neu lunio polisïau a all ddiogelu a chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu. Mae' argymhellion 3 i 8 hefyd yn dibynnu ar ddata ar lefel ddaearyddol is sydd ar gael o'r cyfrifiad yn unig – ar hyn o bryd, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch dyfodol y cyfrifiad.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

- Nid yw dyraniadau adnoddau a'r capasiti presennol yn ein galluogi i sefydlu uned benodol o fewn Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chydlynu polisi cyhoeddus sy'n berthnasol i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 8].
- dan arweinyddiaeth Is-adran Cymraeg 2050, rydym wedi sefydlu Prosiect BRO i ddeall yn well beth sy'n gyrru'r shifft ieithyddol presennol yn ein hardaloedd dwysedd uwch. Y bwriad yw y bydd Prosiect BRO yn darparu'r asesiad sosioieithyddol a fydd yn gyrru polisi cyhoeddus ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i dynnu ar ganfyddiadau Prosiect BRO er mwyn hysbysu ein dealltwriaeth o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

- Byddwn yn parhau i fanteisio  ar y broses o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg er mwyn ystyried sut gall deddfwriaeth a pholisi cyhoeddus penodol ar draws Llywodraeth Cymru gyfrannu at hyfywedd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Byddwn hefyd yn sicrhau bod Bwrdd Rhaglen mewnol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried a chanolbwyntio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel rhan o'i drafodaethau.

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Rydym yn cytuno  â dynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' ac rydym hefyd yn cytuno â'r Comisiwn bod yn rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n osgoi creu 'Gaeltacht'. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac rydym am sicrhau fod gan bobl ledled Cymru gyfan rôl bwysig i'w chwarae wrth alluogi'r iaith ffynnu a pharhau fel iaith gymunedol. Bydd y mecanwaith a ddefnyddir i adnabod ardaloedd yn allweddol wrth sicrhau'r cydbwysedd hwn.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnull fforwm dros gyfnod byr a fydd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus perthnasol ac eraill i ystyried goblygiadau posibl dynodi ardaloedd yn fanylach. , Bydd hyn yn ein helpu i fwrw ymlaen â dynodi mewn ffordd ymarferol sy'n cynnig y buddion a ragwelir yn yr Adroddiad, tra'n parhau'n ymwybodol o unrhyw ganlyniadau anfwriadol ac andwyol.

# 5. Yr Economi

## Crynodeb o’r bennod ar yr Economi:

Mae adroddiad y Comisiwn yn pwysleisio dibyniaeth ieithoedd lleiafrifol ar eu lleoliad o fewn y drefn economaidd, gan ddadlau bod ymyraethau a strategaethau sy’n mynd i’r afael â’r drefn economaidd honno yn hanfodol. Mae prosesau cymhleth yn dylanwadu ar economi Cymru, ac mae’n gysylltiedig ag economïau ehangach y Deyrnas Unedig a’r byd. Fodd bynnag, nid yw sefydliadau sy’n ymwneud â datblygu economaidd yng Nghymru, yn ôl y Comisiwn, bob amser yn blaenoriaethu heriau a chyfleoedd penodol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae’r Comisiwn yn dadlau bod yr ardaloedd hyn wedi eu lleoli’n bennaf mewn rhanbarthau gorllewinol, gwledig a lled-wledig a’u bod yn wynebu heriau strwythurol fel seilwaith trafnidiaeth gwael, marchnad lafur nad yw bob amser yn diwallu anghenion diwydiant a chynhyrchiant sy'n arafu. Hefyd, mae newidiadau demograffig, gan gynnwys oedolion iau yn allfudo a phoblogaeth hŷn sy’n tyfu, yn cyflwyno heriau economaidd ac ieithyddol strwythurol pellach.

Mae’r Comisiwn yn dadlau nad yw polisïau datblygu economaidd prif ffrwd wedi cau’r bwlch Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) gyda gweddill y Deyrnas Unedig nac wedi atal dirywiad ieithyddol. Rhaid i bolisi datblygu economaidd symud oddi wrth feddwl am anfantais economaidd fel mater o incwm ac allbwn yn unig. Dylid canolbwyntio ar sicrhau bod yr economi’n darparu’r gwasanaethau hanfodol a’r seilwaith cymdeithasol, yn ogystal ag incwm i bobl, os yw’r cymunedau am gael eu cynnal. Mae’r Comisiwn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth datblygu economaidd wedi ei theilwra i anghenion yr ardaloedd hyn, gan hyrwyddo dulliau datblygu economaidd sy’n canolbwyntio ar anghenion sylfaenol y cymunedau.

Mae adroddiad y Comisiwn yn trafod polisïau a gweithgareddau economaidd penodol a allai fod o fudd i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnig nifer o argymhellion.

Mae’r Comisiwn yn argymell cefnogi mentrau cymdeithasol a busnesau dan berchnogaeth leol, gan eu bod yn fwy tebygol o weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a chadw elw’n lleol. Dylai polisi amaethyddol ystyried y Gymraeg, gyda chefnogaeth i ffermydd teuluol ledled Cymru. Dylai’r economi ymwelwyr flaenoriaethu budd cymunedol a gweithgarwch cynaliadwy, a dylai awdurdodau lleol eraill ystyried egwyddorion *Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035* .

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y buddsoddiad y mae’r sector cyhoeddus yn ei wneud drwy gyflogau mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith a gwerth hynny. Canmolwyd gwariant byrddau iechyd ar gostau staffio ac ymdrechion i hyfforddi a darparu llwybrau gyrfa i sgiliau proffesiynol a swyddi wedi eu hanelu at boblogaethau lleol, a gwnaed argymhelliad i ehangu a chynyddu nifer y cynlluniau o’r fath. Nodwyd hefyd fod Prifysgolion a chymdeithasau tai yn sefydliadau sydd â phŵer gwario sylweddol a photensial i gydweithio a buddsoddi mewn cymunedau ac economïau lleol, gan gyfeirio a chylchredeg gwariant sylweddol ymhellach mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae cyflogaeth yn dylanwadu ar benderfyniadau i aros, dychwelyd neu ymgartrefu mewn cymunedau Cymraeg, ac mae angen gwell data i ategu polisïau'r farchnad lafur. Pwysleisiodd y Comisiwn hefyd yr angen i reoli datblygiadau economaidd sylweddol yn ofalus, fel safle Wylfa yn Ynys Môn, er mwyn cyfyngu ar yr effeithiau negyddol ar gymunedau lleol a'r Gymraeg.

Dadleuai'r Comisiwn fod grantiau a buddsoddiad cyhoeddus yn ffyrdd o hwyluso neu alluogi datblygiadau o fewn cymunedau na fyddai'n bosibl fel arall. Dylai prosesau caffael cyhoeddus gael eu hategu a'u sgorio mewn perthynas â chylchrediad arian o fewn yr economi leol a'r effaith ar y Gymraeg. Gallai datblygu rhai trefi fel canolfannau gyda gwasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol neu hamdden hefyd ddenu unigolion a theuluoedd i ymgartrefu yn yr ardal.

Yn olaf, nododd y Comisiwn, er bod symudedd yn rhan o brofiadau bywyd pobl, ei fod o'r farn bod patrymau presennol o bobl iau yn allfudo o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn niweidiol. Dadleuodd y Comisiwn y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â her pobl ifanc yn allfudo ochr yn ochr â chynorthwyo'r rhai sy'n penderfynu aros neu setlo yn yr ardaloedd dan sylw. Gwneir argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen wybodaeth, ymchwil a chyfathrebu i gynorthwyo a chymell pobl ifanc i aros, dychwelyd neu setlo mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Daw pennod yr adroddiad ar yr economi i glo gyda thrafodaeth ar sut dylid bwrw ymlaen â gwaith mewn perthynas ag economi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae'r Comisiwn yn dadlau bod angen cyfrwng neu gorff penodol i arwain a chydlynu gweithgareddau datblygu economaidd yn yr ardaloedd hyn. Gwneir argymhelliad bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu corff o'r fath i arwain a chydlynu ymdrechion, ac mae'n cynnwys cylch gorchwyl arfaethedig ar ei gyfer. Mae'n cynnwys datblygu polisïau neu strategaethau yng nghyd-destun ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch; prif ffrydio polisïau economaidd; dylanwadu ar strwythurau datblygu economaidd ehangach; datblygu partneriaethau a rhannu capasiti ar lawr gwlad; datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg; ac arwain ymdrechion i ddenu pobl ifanc i aros, dychwelyd neu setlo mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell sefydlu Canolfan Ragoriaeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ryngberthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg. Dylai'r Ganolfan ategu'r gwaith ehangach mewn perthynas â pholisi economaidd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru yn un ar gyfer Cymru gyfan ac mae eisoes yn ystyried y rhyngberthynas â'r Gymraeg a chynllunio ieithyddol a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod tymor y Senedd hon. Yn ogystal â'r Genhadaeth, ceir pedwar Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a gyd-gynhyrchwyd gyda busnesau a rhanddeiliaid ehangach ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru, ac sy'n disgrifio ac yn ystyried cyfleoedd ac anghenion rhanbarthol penodol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n chwarae rhan allweddol yn wrth ddatblygu ein heconomi.

Bydd gwerthusiad o raglen bresennol ARFOR yn allweddol i roi rhagor o wybodaeth i'r Genhadaeth Economaidd a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Bydd ei ganfyddiadau, ochr yn ochr â chyfnod 'oedi ac adlewyrchu' ARFOR II, yn gyfle i ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen ac i nodi polisïau a gweithgareddau a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion ieithyddol ac economaidd penodol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ar y pwynt hwn yn Nhymor y Senedd gyfredol, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio creu strategaeth datblygu economaidd newydd wedi ei theilwra i anghenion economaidd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 9]. Fodd bynnag, bydd yr hyn a ddysgir o raglen ARFOR II yn sail i'n hymdrechion yn y dyfodol i gynorthwyo economïau cymunedau Cymraeg, ac yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer prif ffrydio ac ymgorffori polisi cynllunio ieithyddol o fewn polisi economaidd ehangach Llywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol, rydym yn cytuno â'r egwyddor a adlewyrchir yn Argymhelliad 9, y dylai polisi datblygu economaidd yn y meysydd hyn geisio cynorthwyo'r economi sylfaenol yn benodol. Mae'r economi sylfaenol yn allweddol bwysig o fewn cymunedau Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'r sector gofal cymdeithasol yn cyflogi bron i 85,000 o unigolion ledled Cymru. Mae'r rolau hyn nid yn unig yn cyfrannu'n gadarnhaol at economïau cymunedau Cymraeg, ond hefyd yn dibynnu ar ac yn meithrin gweithlu sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau proffesiynol. Felly, mae cefnogi'r economi sylfaenol yn ymrwymiad allweddol yn ein cenhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi.

Mae'r sector twristiaeth ac economi ymwelwyr yn benodol, o bwysigrwydd strategol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r economi sylfaenol. Mae ein dull gweithredu'n canolbwyntio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'n ceisio gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni amcanion yr economi sylfaenol a nodir yn ein Datganiad cenhadaeth: economi sylfaenol. Bydd cyfnod 'oedi a myfyrio' ARFOR II yn cynnig cyfle i ystyried y gwaith ehangach hwn sydd wedi cael ei wneud i gynorthwyo'r economi sylfaenol, ac i adnabod cyfleoedd i fabwysiadu, prif ffrydio a theilwra dulliau gweithredu llwyddiannus i economïau cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae'r Adroddiad yn dadlau dros gymorth ychwanegol i fentrau a busnesau cymunedol er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol [Argymhelliad 10]. Er hynny, mae cymorth penodol eisoes ar gael ledled Cymru i ddechrau a thyfu busnesau fel Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru – mae'r naill a'r llall yn ystyried anghenion rhanbarthau a busnesau ledled Cymru ac maent ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd yn cael ei ddefnyddio wrth gyflawni. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon, sy'n sicrhau bod busnesau'n parhau i weithredu a chyflogi pobl yn eu cymunedau lleol.

Rydym wedi sefydlu prosiect Perthyn gyda'r nod i rymuso cymunedau i greu busnesau cymdeithasol newydd lle mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'r fenter. Mae Perthyn yn darparu cymorth a chyngor arbenigol i grwpiau cymunedol yn ogystal â chronfa grantiau bach ar gyfer meithrin gallu.

Rydym yn cytuno bod amaethyddiaeth yn rhan hanfodol o gyfansoddiad economaidd Cymru, a bod y sector yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynorthwyo'r Gymraeg yn ein cymunedau gwledig [Argymhelliad 11]. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cyflawni'r pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy a sefydlwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) sy'n rhoi pwyslais penodol ar bwysigrwydd y Gymraeg a'i defnydd; "Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd". Ein huchelgais yw cynorthwyo cymunedau gwledig a'r Gymraeg drwy ddatblygu a gweithredu cynllun sy'n cefnogi ffermwyr ac yn eu cadw nhw yng Nghymru i ffermio. Drwy hynny, byddwn yn adolygu'r cynigion diwygiedig ar gyfer y Cynllun i sicrhau ei fod yn darparu o leiaf yr un cyfleoedd, os nad mwy, ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Mae ein strategaeth ar gyfer yr economi ymwelwyr, Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr, yn ceisio datblygu'r sector mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i bobl ac i leoedd ac sy'n sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol ochr yn ochr â chyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol. Ein nod yw sicrhau bod twf economaidd a manteision llesiant ehangach yn y pen draw yn gwella ansawdd bywyd pawb, boed yn ymwelwyr, yn bobl leol neu'n berchnogion busnesau.

Wrth ystyried Cynllun *Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035*, mater i'r awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol yw hwn a bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei fod yn cael ei ddwyn i sylw'r awdurdodau hynny yn ehangach [Argymhelliad 12].

Er bod Argymhelliad 13 yn fater i fyrddau iechyd unigol a phrifysgolion, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad. Mae GIG Cymru a phrifysgolion yn gyflogwyr allweddol ledled Cymru ac mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, ac mae'r cyflogau a delir yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn ein cymunedau.

Rydym yn derbyn yr angen i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy wariant cyhoeddus [Argymhelliad 14]. Mae gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a llawer o awdurdodau cyhoeddus eraill ddyletswydd o dan Safonau'r Gymraeg i ystyried y Gymraeg wrth greu a gweithredu polisi wrth ddyrannu grantiau ac wrth gaffael gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal arfarniadau ac asesiadau effaith o ddeddfwriaeth a gweithredu polisïau. Bydd yr asesiadau hyn yn cynnwys ystyriaeth benodol o'r effaith ar y Gymraeg.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn darparu fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus ar ffurf gwaith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Fel rhan o'r Ddeddf, rhoddir dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gaffael, i bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant ac i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu dilyn

drwy gadwyni cyflenwi. O dan y Ddeddf, mae hefyd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu gweithgareddau caffael cyhoeddus. Bydd adroddiadau'n rhoi mewnwelediad ac yn craffu ar brosesau caffael a chynnydd tuag at nodau caffael ac amcanion llesiant. I ategu hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu set o fatricsau a fydd yn cofnodi cyfran y gwariant ar gyfleoedd i weithwyr ddysgu, defnyddio neu wella eu sgiliau Cymraeg.

Mae allfudo pobl ifanc yn her economaidd ac ieithyddol strwythurol o fewn cymunedau Cymraeg. Cytunwn fod mewnfudo, ac allfudo pobl ifanc o ardaloedd gwledig yn benodol, yn ymwneud ag amrywiaeth o feysydd polisi. Er na fyddwn am atal hawl unrhyw un i symud, nid ydym am i bobl ifanc deimlo nad oes ganddynt ddewis ond symud er mwyn llwyddo, cael cartref, a chyrraedd eu llawn botensial, oherwydd diffyg cyfleoedd o fewn pellter rhesymol o'u cymuned leol. [Argymhelliad 15].

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

- Mae rhaglen ARFOR wedi ceisio treialu nifer o ymyraethau economaidd yn ardal pedair awdurdod lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) sy'n ceisio cefnogi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Wrth wneud hynny, mae wedi ceisio osgoi dyblygu gwaith rhaglenni a gweithgareddau eraill gan fynd ati i ychwanegu gwerth at weithgarwch arall sy'n berthnasol. Cynigir cynnal cyfnod o oedi a myfyrio, gan weithio gyda'r awdurdodau lleol ac eraill, i ystyried y gwersi a ddysgwyd a chanfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol, er mwyn helpu i lywio ffordd ymlaen [Argymhelliad 16]. Bydd angen i'r gwaith hwn hefyd ystyried sut caiff y gwersi a ddysgwyd eu datblygu a pha elfennau o'r rhaglen y gellir eu prif ffrydio. Bydd angen ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach yng ngoleuni unrhyw waith arfaethedig, gan ystyried strwythurau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel Cyd-bwyllgorau Corfforedig a blaenoriaethau'r awdurdodau lleol, sydd hefyd â diddordeb allweddol yn y maes gwaith hwn.
- Mae cynllun cyflawni Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn nodi ein hymyraethau polisi sydd wedi'u cynllunio i gryfhau'r economi sylfaenol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddor bod angen gwell dealltwriaeth o'r rhyngberthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg a bydd yn archwilio cyfleoedd i wneud hynny drwy Dirnad Economi Cymru a Pholisi Economaidd [Argymhelliad 17]. Fe wnaeth y Llywodraeth gomisiynu a chyhoeddi adroddiad *Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau* yn 2020. Mae'r naill fersiwn a'r llall o raglen ARFOR, yn rhannol, yn ceisio datblygu ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg. Bydd gwerthusiad rhaglen ARFOR II (2022-25), ochr yn ochr ag ymchwil a gomisiynwyd drwy'r rhaglen ei hun, yn datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng prosesau economaidd a'r iaith.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod allfudo pobl ifanc o gymunedau Cymraeg eu hiaith yn her economaidd ac ieithyddol strwythurol, a bydd yn parhau felly yn y dyfodol. Yn wir, rydym yn derbyn bod allfudo pobl ifanc yn creu heriau strwythurol i economïau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd y tu hwnt i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r gwersi a ddysgwyd wrth ddarparu rhaglenni sydd wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â

heriau allfudo fel rhan o raglen ARFOR II, ochr yn ochr â'r ymchwil a wnaed fel rhan o ddwy raglen ARFOR, wedi datblygu ein dealltwriaeth o'r her a'r ymatebion posibl [Argymhelliad 15].
- Mae ein rhaglenni buddsoddi cyfalaf, y Pethau Pwysig a Chronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru, hefyd yn cynnwys amodau cyllido sy'n mynnu bod prosiectau'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r dulliau sydd eisoes yn cael eu mabwysiadu gan fyrddau iechyd a phrifysgolion yng Nghymru i hyrwyddo cyflogaeth leol. Drwy ein rhaglen *Cymru Iachach* a'r economi sylfaenol er enghraifft, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod ni'n gwario'r gyllideb hon mewn ffordd a fydd o fudd i'n pobl yn ogystal ag i'n heconomi.

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol o raglen ARFOR II. Bydd ystyriaeth ofalus o'r canfyddiadau hyn yn llywio'r camau nesaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economïau cymunedau Cymraeg eu hiaith. Gall hyn gynnwys, fel rhan o gyfnod 'oedi a myfyrio' ARFOR II, ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen a gweithio gydag awdurdodau lleol perthnasol i nodi polisïau a gweithgareddau a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion economaidd ac ieithyddol yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. [Argymhelliad 9], a chynnig cyfle i ystyried modelau darparu priodol ar gyfer polisi economaidd mewn cymunedau Cymraeg [Argymhelliad 16].
- Fel rhan o'i gyfnod 'oedi a myfyrio', bydd disgwyl i ARFOR II hefyd ystyried y cyfleoedd i brif ffrydio polisi cynllunio ieithyddol o fewn polisi economaidd ehangach Llywodraeth Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu a chefnogi'r amodau economaidd sy'n galluogi pobl ifanc i aros, dychwelyd ac ymgartrefu yn ein cymunedau Cymraeg. I ddechrau, byddwn yn sefydlu tasglu trawslywodraethol i ddatblygu ymateb cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael â gofynion yr argymhelliad. Bydd y tasglu yn rhoi ystyriaeth benodol i'r canfyddiadau a'r gwersi i'w dysgu sy'n deillio o Raglen ARFOR II, yn ogystal â'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i'r Llywodraeth. Bydd y tasglu'n ceisio deall yn well y seiliau a'r cymhellion sy'n gysylltiedig ag allfudo gan sicrhau fod pobl ifanc yn benodol yn llwyr ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 15].
- Byddwn yn parhau i archwilio a manteisio ar gyfleoedd i gomisiynu, cefnogi ac annog rhagor o ymchwil yn y maes hwn. Mae ein rhaglen 'Cymraeg 2050: Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil' sydd ar fin cael ei gyhoeddi, er enghraifft, yn cefnogi deialog gyda'r gymuned ymchwil allanol ynghylch diddordebau ymchwil Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys adran sy'n sôn yn benodol am faterion sy'n ymwneud â'r economi. Rydym hefyd yn archwilio trefniadau, fel y nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 8, a fydd yn galluogi cydweithio agosach ar draws meysydd polisi perthnasol i sicrhau bod ymchwil yn ogystal â pholisi yn cael eu datblygu mewn modd sy'n ymateb i'r amgylchiadau penodol a'r heriau sy'n wynebu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 17].

- Nod y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) yw hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, cefnogi cymunedau lleol a grymuso awdurdodau lleol i fuddsoddi yn yr economi ymwelwyr leol. Nod y Bil yw rhoi'r dewis i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ar aros dros nos mewn llety ymwelwyr yn eu hardal. Gellir buddsoddi'r arian hwn mewn gwasanaethau a seilwaith lleol i gefnogi twristiaeth yn eu hardal, gan gynnwys ar fentrau i gefnogi'r Gymraeg. Cafodd y Bil ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2024, ac mae yng Nghyfnod 2 ar hyn o bryd. Bydd yr ardoll ymwelwyr yn ddewisol, felly bydd maint yr effaith ar y Gymraeg yn amrywio yn ôl yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu'r ardoll a buddsoddi'r enillion [Argymhelliad 12].

## 6. Gweithleoedd Cymraeg

### Crynodeb o’r bennod gweithleoedd Cymraeg:

Yn y bennod ar weithleoedd Cymraeg (Argymhelliad 18-20), mae’r Comisiwn yn nodi pwysigrwydd defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle, yn enwedig i’r rhai nad ydynt yn cael cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg gartref neu mewn rhwydweithiau cymdeithasol bob dydd. Mae’r Comisiwn yn tynnu sylw penodol at rôl sefydliadau’r sector cyhoeddus yng Nghymru o ran cefnogi’r Gymraeg yn fewnol ac o ran gwireddu eu heffaith ieithyddol bosibl yn allanol, yn y gymuned. Mae’r Comisiwn yn dadlau y dylai sefydliadau a chyrff y sector cyhoeddus symud ar hyd continwwm ieithyddol drwy gynllunio gofalus, rhesymol ac ymarferol sy’n cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg dros amser.

Mae’r Comisiwn yn argymell safoni sut y caiff gallu yn y Gymraeg ei fesur ar draws sefydliadau’r sector cyhoeddus, er mwyn hwyluso prosesau recriwtio a chefnogi cynllunio ieithyddol o fewn y sefydliadau [Argymhelliad 18]. Mae’r Comisiwn hefyd yn trafod pwysigrwydd datblygu hyfedredd iaith o fewn y gweithlu, cynnig prentisiaethau cyfrwng Cymraeg, a chynyddu’r defnydd o dechnoleg iaith i hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.

Mae’r Comisiwn yn cydnabod pwysigrwydd arweinwyr yn y sector cyhoeddus, o ran gosod tôn a naws mewn perthynas â’r Gymraeg, a diwylliant sy’n agored ac yn gynhwysol – sail bwysig ar gyfer ysgogi a hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle [Argymhelliad 19]. Mae’r Comisiwn yn argymell datblygu cyrsiau i gefnogi arweinwyr sefydliadau a gweithleoedd y sector cyhoeddus mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
Yn ogystal, mae’r Comisiwn yn argymell ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i Safonau’r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi i ba raddau y maent yn defnyddio’r Gymraeg yn fewnol, a’r camau y byddant yn eu cymryd i symud y sefydliadau dan sylw ar hyd continwwm ieithyddol [Argymhelliad 20].

Yn olaf, mae’r Comisiwn yn cyffwrdd ar y defnydd o’r Gymraeg mewn gweithleoedd sector preifat a’r angen am gymorth a chyngor lleol i annog busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

### Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle yn hanfodol i hyfywedd yr iaith. Mae nod 6 strategaeth *Cymraeg 2050* yn amlinellu ein gweledigaeth a’n strategaeth i gynorthwyo gweithleoedd i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio, ymarfer a dysgu Cymraeg. Mae gweithredu Safonau’r Gymraeg yn rhan bwysig o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cynnig mwy o gyfleoedd i’w staff ddefnyddio’r Gymraeg yn y gwaith. Mae safonau, ac arweiniad a ddarperir gan Gomisiynydd y Gymraeg, wedi cynorthwyo cyrff cyhoeddus i wella’r ffordd y maent yn cynllunio eu gweithlu dwyieithog ac yn darparu mwy o gyfleoedd i staff gydnabod, defnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y gellir ac y dylid gwneud mwy i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu’r Gymraeg mewn gweithleoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd defnyddio fframwaith cyffredin i fesur medrusrwydd yn helpu cyflogwyr, gan gynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus, i wella'r broses o gynllunio'r gweithlu ar sail yr angen am sgiliau Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno y dylai fframwaith o'r fath fod yn seiliedig ar y CEFR (Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd). Mae gwaith eisoes wedi dechrau i ddatblygu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg er mwyn cyflawni'r bwriad hwn [Argymhelliad 18].

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gan sefydliadau sector cyhoeddus sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gyfraniad gwerthfawr i'w wneud o ran hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle [Argymhelliad 19]. Mae gan gyrff cyhoeddus sydd â phresenoldeb mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch rôl i sefydlu a chynnal normau a disgwyliadau mewn perthynas â'r Gymraeg yn y gweithle. Dylid disgwyl i arweinwyr cyrff cyhoeddus o'r fath sicrhau bod agweddau ieithyddol eu sefydliadau yn grymuso eu gweithlu ac yn adlewyrchu'r gymuned lle maent wedi eu lleoli.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno fod gan dechnoleg gyfraniad sylweddol i'w wneud er mwyn cynnal gweithleoedd dwyieithog h.y. drwy awtomeiddio cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i gynorthwyo cyfieithwyr dynol sydd â chymwysterau cydnabyddedig, defnyddio rhyngwynebau Cymraeg, teclynnau gwirio sillafu a gramadeg. Dylai technolegau o'r fath fod ar gael yn eang mewn gweithleoedd ar draws Cymru.
O ran yr argymhelliad ar gyfer cwrs penodol 'Arwain mewn Cymuned sy'n siarad Cymraeg', mae Llywodraeth Cymru yn credu y gellir cyflawni hyn drwy'r cwrs 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' presennol. Un o elfennau hollbwysig y cwrs hwnnw yw'r cyfle y mae'n ei gynnig i arweinwyr o bob cwr o Gymru gael dod i gysylltiad â gwahanol gyd-destunau ieithyddol lleol ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r holl arweinwyr sy'n ymuno â'r rhaglen gael y cyfle i elwa a dysgu o ddod i gysylltiad â chyd-destun ieithyddol cymunedau Cymraeg [Argymhelliad 19].

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, pan fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth yn y gymuned, ei bod yn briodol i sefydliadau'r sector cyhoeddus symud tuag at weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg i'r graddau sy'n ymarferol.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

- Mae Rhan 2 o Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn darparu ar gyfer lefelau cyfeirio cyffredin i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi unigolion, gan gynnwys dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr i gael dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae defnyddwyr y Gymraeg yn 'gallu ei wneud' ar bob lefel.
- Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg sy'n seiliedig ar lefelau cyfeirio cyffredin y CEFR.

- Rydym yn cytuno y byddai arweinwyr yng Nghymru yn parhau i elwa ar ein rhaglen 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' bresennol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r rhaglen am bedair blynedd arall er mwyn galluogi mwy o arweinwyr i fanteisio ar y cyfle hwn.
- Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu Safonau'r Gymraeg ('y safonau') a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Diben yr adolygiad fydd penderfynu a oes angen diwygio unrhyw un o'r safonau sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Hefyd, bydd yr adolygiad o safonau yn ystyried a oes angen diwygio Safonau Hybu'r Gymraeg er mwyn hwyluso cyrraedd targedau yn strategaeth *Cymraeg 2050*.
- Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein blaenoriaethau ar gyfer technoleg Cymraeg, yn seiliedig ar waith a wnaed o dan ein *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg* (2018-2024). Mae'r blaenoriaethau hyn fel â ganlyn:
  - technoleg i gynyddu defnydd dyddiol o'r Gymraeg
  - sicrhau fod pawb yn gallu cael mynediad at dechnoleg Cymraeg
  - gwella deallusrwydd artiffisial (AI) yn Gymraeg, a thechnolegau lleferydd ac iaith (drwy rannu data a dulliau eraill)

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Byddwn yn gofyn i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill am gyngor a chymorth i ddatblygu a mabwysiadu'r Cod yn ehangach i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog', gan sicrhau bod pwysigrwydd cyd-destun daearyddol a chymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, yn cael ei bwysleisio i arweinwyr yn yr ardaloedd hyn a thu hwnt.
- Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid cwblhau'r adolygiad o safonau o fewn cyfnod o 12 mis gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl cyhoeddi'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Rydym o'r farn ei bod yn gynamserol diwygio safonau perthnasol cyn cynnal yr adolygiad o'r safonau tan y cyfnod hwn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cod. Gan hynny, rydym yn cynnig ystyried Argymhelliad 20 wrth gynnal yr adolygiad sy'n ofynnol o dan y Bil.
- Byddwn yn parhau i ariannu rhaglen ARFer, sef rhaglen wyddonol ac ymddygiadol ar gyfer gweithleoedd (sydd hefyd yn cynnwys ap) fel y gall mwy o bobl ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle. Byddwn yn parhau i weithio gyda Microsoft ar ein hachos busnes a'n partneriaeth ar dechnoleg Gymraeg. Byddwn yn cyflwyno 'Cymraeg mewn clic' ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r datrysiad un clic hwn yn helpu pobl i newid eu cyfrifiadur yn y gweithle yn hawdd i'r Gymraeg. Byddwn yn rhannu'r codio a'r wybodaeth gefndirol gyda sefydliadau eraill fel y gallent hefyd gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio technoleg Gymraeg yn y gweithle. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio ar ddeallusrwydd artiffisial Cymraeg (fel ein gwaith gyda Microsoft i sicrhau ymarferoldeb y Gymraeg yn Copilot).

## 7. Datblygu cymunedol

### Crynodeb o’r bennod Datblygu cymunedol:

Yn y bennod ar Ddatblygu Cymunedol [Argymhelliad 21-24], mae’r Comisiwn yn pwysleisio fod gan ddatblygu cymunedol rôl bwysig o ran grymuso ac annog cyfranogiad mewn mentrau cymunedol sydd yn eu tro yn helpu i gynyddu’r defnydd o’r iaith.

Mae’r Comisiwn yn cydnabod bod angen dull cyfannol er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg, lle ceir cyd-ddibyniaeth rhwng tai, yr economi, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol. Roedd COVID-19 yn dangos sut roedd rhai cymunedau’n dod at ei gilydd ac yn gallu cynnal eu hunain mewn amgylchiadau heriol. Yn y gogledd-orllewin, ceir nifer o enghreifftiau o fodelau datblygu cymunedol integredig a chyfannol . Mae’r Comisiwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd dwyn ynghyd arbenigedd sy’n bodoli'n barod yn lleol i wireddu gweledigaeth a llunio atebion ymarferol ar gyfer cynaliadwyedd yr iaith.

Mae’r Comisiwn o’r farn y dylid gwneud mwy o waith i ddeall sut gall cymunedau gael mwy o lais a chymryd perchnogaeth dros asedau – mewn llawer o achosion, mae grwpiau cymunedol wedi dangos arweiniad drwy gynnal a diogelu gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Dylai cyllid fod ar gael hefyd i gefnogi mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol. Mae’r Comisiwn yn cydnabod bod polisïau sy’n annog perchnogaeth gymunedol hefyd yn gefnogol i’r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mae cynllunio tymor hir yn hanfodol, ac i ategu’r nod hwn, mae’r Comisiwn yn teimlo bod angen ymrwymiad cyllido tymor hwy ar gyfer grwpiau cymunedol fel y mentrau iaith.

### Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod egwyddorion datblygu cymunedol yn hollbwysig i gynaliadwyedd cymunedau ac, o ganlyniad, i gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Mae Llywodraeth Cymru yn credu’n gryf bod cymunedau eu hunain mewn sefyllfa well i ddeall yr heriau y maent yn eu hwynebu a’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Ein nod yw grymuso a hwyluso gwaith i feithrin gallu cymunedol mewn partneriaeth â’n rhanddeiliaid allweddol. [Argymhelliad 21]

Mae cyllid grant tymor hwy eisoes ar gael gan Lywodraeth Cymru drwy ein polisi tymor hwy newydd ar gyfer cyllid a meincnodi a gyhoeddwyd yn 2022. Mae cynllun grantiau Llywodraeth Cymru i hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn cael ei gyllido fesul blwyddyn ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd *Adolygiad o Gynllun Grantiau Llywodraeth Cymru i Hyrwyddo a Hwyluso’r Defnydd o’r Gymraeg* yn 2023. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar achos busnes i ymestyn y cynllun grant i gyfnod cyllido tair blynedd, a fydd yn cyd-fynd â’r polisi meincnodi. [Argymhelliad 22].

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod grantiau ar gael yn ogystal â benthyciadau ar gyfradd ffafriol i gynorthwyo mentrau cymunedol mewn

ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol. [Argymhelliad 23]. Rydym hefyd yn cytuno i gynnig cymorth i grwpiau cymunedol ddatblygu rhwydweithiau sy'n ceisio rhannu arferion da a helpu ei gilydd i ddysgu o'u profiadau [Argymhelliad 24]. Rydym yn cydnabod bod rhai rhwydweithiau eisoes yn bodoli. Mae Cwmpas hefyd yn gyfrifol am brosiect Perthyn, sy'n cynorthwyo grwpiau cymunedol newydd i droi syniadau yn fentrau cymdeithasol newydd. Mae Cwmpas wedi cytuno i ddatblygu rhwydwaith o'r grwpiau hyn sydd newydd gael eu ffurfio.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd, ac mae hyn yn ganolog i'w gweledigaeth ar gyfer datblygu cymunedol.
- Rydym eisoes wedi buddsoddi ym mhecyn adnoddau Gweithredu'n Lleol, sy'n darparu methodoleg gydlynol ar gyfer cynllunwyr iaith cymunedol ac ymarferwyr datblygu cymunedol. Y nod yw adnabod anghenion, heriau a chyfleoedd penodol iaith a pha ymyraethau sydd eu hangen i gynorthwyo'r iaith. Defnyddir y pecyn adnoddau yn gyffredinol gan y mentrau iaith mewn partneriaeth â chymunedau lleol. Rydym yn cydnabod bod angen diweddaru'r pecyn yn ogystal â sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd ac yn hawdd i'w ddefnyddio gan gynulleidfa ehangach [Argymhelliad 21].
- Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar achos busnes i symud ein cylch cyllido cyfredol sy'n mynd o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer ein cynllun grant y Gymraeg i ddyraniadau cyllid tymor hwy. Ein nod yw cyflwyno tymor cyllido tair blynedd o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen [Argymhelliad 22].
- Rydym eisoes yn buddsoddi'n ariannol mewn mentrau cymunedol. Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn darparu grantiau cyfalaf i helpu cymunedau ledled Cymru i brynu a gwella asedau cymunedol. Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gymuned leol wrth ddatblygu eu cais. Credwn yn gryf fod cyfleusterau cymunedol yn helpu i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 23].
- Gweithredir y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa'n darparu cyllid benthyciad tymor hir i alluogi cymunedau i brynu a gwella asedau cymunedol. Ar hyn o bryd, os yw'r prosiectau cymunedol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth (cyflogwr cyflog byw gwirioneddol, cynllun gweithredu sero net), mae'r gronfa'n cynnig 0.5% o ostyngiad ar y gyfradd fenthyca [Argymhelliad 23].
- Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Asedau Cymunedol, mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd ar Asedau Cymunedol (2022). Cafodd y grŵp y dasg o ystyried materion perthnasol sy'n ymwneud â pherchnogaeth gymunedol ar asedau a datblygu opsiynau i hyrwyddo'r agenda asedau cymunedol yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu: y dewisiadau fframwaith statudol a rheoleiddiol sydd eu hangen i gynorthwyo cymunedau lleol; y dirwedd gyllido bresennol sy'n cynnal asedau cymunedol; ynghyd ag adolygiad o ba becynnau cymorth eraill y gallai fod eu hangen i gynorthwyo cymunedau sy'n ceisio caffael a rheoli asedau

cymunedol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y Grŵp yn cyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cymru erbyn hydref 2025 [Argymhelliad 23].

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddiweddaru pecyn adnoddau Gweithredu'n Lleol i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag anghenion ieithyddol ein cymunedau yn ogystal â datblygu elfennau datblygu cymunedol ac economaidd eraill. Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno methodolegau cynllunio eraill sy'n seiliedig ar leoedd, sydd wedi cael eu datblygu a'u defnyddio'n eang yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hefyd, byddwn yn gweithio'n agos gyda thîm astudiaeth sosioieithyddol Prosiect BRO i ddysgu o'u prosesau ymchwil cymunedol.
- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i hyfforddi a grymuso cymunedau i ddefnyddio pecyn adnoddau Gweithredu'n Lleol i'w helpu i ddeall anghenion economaidd-gymdeithasol ac ieithyddol eu hardal leol yn well.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol i'w galluogi i gynnig cyfradd ostyngol ychwanegol o 0.5% ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. [Argymhelliad 23].
- Yn 2022, sefydlodd Llywodraeth Cymru y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*. Mae'r cynllun yn cynnwys prosiect Perthyn, sy'n helpu grwpiau cymunedol i droi syniadau'n fentrau cymdeithasol hyfyw neu'n brosiectau tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Rydym yn cytuno bod rhannu arferion da a dysgu o brofiadau sefydliadau unigol yn hanfodol. Felly, fel rhan o gynllun gwaith prosiect Perthyn rhwng 2025 a 26, mae partner cyflawni prosiect Perthyn wedi cytuno i sefydlu rhwydwaith ar gyfer y mentrau cymdeithasol cymunedol a gyllidir yn Perthyn. Bydd hyn yn golygu bod modd rhannu arferion da a bydd yn ffordd effeithiol o gefnogi a helpu i ddatblygu busnesau cymdeithasol. Rydym hefyd yn cydnabod y gwaith y mae rhanddeiliaid eraill fel ARFOR, Cymunedoli a Rhwyd yn ei wneud i gynorthwyo cydweithio rhwng mentrau cymdeithasol. Byddwn yn trafod y cyfleoedd i weithio gyda'r sefydliadau hyn, rhannu arferion da yn ogystal â chyfleoedd i brif ffrydio egwyddorion cynllunio ieithyddol cymunedol [Argymhelliad 24].

# 8. Tai

## Crynodeb o'r bennod ar Dai:

Yn y bennod ar dai (Argymhelliad 25-34), mae'r Comisiwn yn nodi bod tai fforddiadwy annigonol yn fygythiad i gynaliadwyedd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, yn enwedig pan na all pobl ifanc a theuluoedd ddod o hyd i gartrefi priodol a fforddiadwy. Dywedodd y Comisiwn ei bod yn hanfodol bod datblygiadau tai ar gael yn eang, yn fforddiadwy ac yn seiliedig ar anghenion lleol.

Gall tai fforddiadwy helpu i sicrhau cynaliadwyedd cymunedau gan gynnwys cynaliadwyedd yr iaith. Mae'r Comisiwn yn credu'n gryf na ddylai datblygiadau tai arwain at ddadleoli cymunedau lleol, gan y gall datblygiad y tu hwnt i alw lleol gael 'effaith niweidiol' ar gymunedau a'r iaith. Mae gan yr Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LMHA) rôl allweddol o ran paratoi sylfaen dystiolaeth gadarn wrth baratoi strategaethau tai lleol. Mynegodd y Comisiwn bryder nad yw'r templed LMHA presennol yn ystyried y Gymraeg. Roedd y Comisiwn hefyd yn teimlo bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn seiliedig ar amcangyfrifon bras ac nad yw'r data yn cyfateb i anghenion tai ar lefel leol.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod rôl y rhwydwaith o hwyluswyr tai ac yn eu gweld fel enghraifft o arfer da wrth ddatblygu tai fforddiadwy. Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod rôl cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol wrth ymateb i anghenion tai mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae hefyd yn tynnu sylw at y risgiau cysylltiedig sy'n gallu cael effaith negyddol ar ddatblygiadau tai newydd h.y. costau cynyddol deunyddiau, prinder sgiliau ac argaeledd tir. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn adeiladu tai fforddiadwy yn rhywbeth i'w groesawu, yn ogystal â mwy o hyblygrwydd o ran dyrannu cyllid i sicrhau bod datblygiadau llai yn ymarferol.

Mae'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn un o ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i gynorthwyo cymunedau Cymraeg eu hiaith sydd â nifer uchel o ail gartrefi. Mae ymyraethau'r cynllun yn cael eu darparu fel cynllun peilot ar hyn o bryd, ond mae'r Comisiwn yn argymell [Argymhelliad 24] bod ymyraethau'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn cael eu gwneud yn barhaol. Mae hefyd yn croesawu *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor* ac yn mynegi'r angen am i'r gwerthusiad annibynnol parhaus o'r cynllun peilot ystyried yr effaith ar y Gymraeg.

Cred y Comisiwn fod datblygiadau tai dan arweiniad y gymuned yn darparu atebion ychwanegol i gymunedau ond tynnodd sylw at yr angen am ffrydiau cyllido i helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu tai a fydd yn fforddiadwy. Mae'r Comisiwn yn argymell y gall awdurdodau cynllunio osod amodau ar geisiadau cynllunio wrth ddefnyddio Adran 106. Nododd hefyd y dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio ystyried a oes modd datblygu modelau ar gyfer gosod tai cymdeithasol lle gallai'r Gymraeg fod yn un ffactor cadarnhaol [Argymhelliad 33]. Roedd y Comisiwn hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr morgais i wella'r gystadleuaeth o ran darparu morgeisi ar gyfer eiddo gyda chyfyngiadau arnynt [Argymhelliad 24].

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Llywodraeth yn deall yn llwyr yr heriau y mae llawer o gymunedau'n eu hwynebu o ran tai. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn cydnabod y gall heriau tai amrywio o un gymuned i'r llall. Fodd bynnag, lle bo tystiolaeth yn dangos her benodol i'r cyflenwad o dai fforddiadwy, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ochr yn ochr ag ystyriaeth o'r effaith ar y Gymraeg.

Mae cynnal asesiad o anghenion tai yn ofyniad ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n cael ei gynnal drwy broses yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Hwyluswyr Tai Gwledig mewn pum awdurdod lleol yng Nghymru. Lle maent ar waith, mae'r Hwyluswyr Tai Gwledig yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o'r angen lleol am dai drwy broses yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ac yn cynnal asesiadau anghenion cymunedol pwrpasol lle bo hynny'n ofynnol gan yr awdurdod lleol ac o fewn y gyllideb sydd ar gael. [Argymhelliad 26].

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod cyfyngiadau datblygu yn fwy tebygol o gael effaith andwyol ar safleoedd llai ac y gallai fod yn haws eu cynnwys a'u hymgorffori mewn modelau cost hyfywedd ar ddatblygiadau mwy. Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Canllawiau Costau Derbyniol sy'n cynnwys matricsau costau i'w defnyddio yn y broses Cais am Gyllid Cyfalaf ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol. Mae Canllawiau Costau Derbyniol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu tueddiadau'r farchnad [Argymhelliad 27].

Cafodd y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* ei greu yn 2022 fel cynllun peilot tair blynedd i ddechrau. Elfen ganolog o'r cynllun oedd y cytundeb i werthuso'r ymyraethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gaffael gwasanaethau gwerthuswr annibynnol. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn rhoi arweiniad ar gyfeiriad y cynllun yn y dyfodol [Argymhelliad 28].

Mae grymuso cymunedau yn elfen graidd o'r cynllun, a thrwy ein prosiect Perthyn, rydym yn darparu cyngor a chymorth arbenigol i'n cymunedau Cymraeg eu hiaith i droi eu syniadau'n fentrau cymdeithasol dichonadwy neu'n brosiectau tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Drwy brosiect Perthyn, rydym wedi dyfarnu 65 o grantiau bach i gynorthwyo'r mentrau cymunedol hyn yma. Cafodd y *Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol* ei lansio ym mis Mawrth 2024, lle gall pobl, busnesau a'r trydydd sector fwynhau modiwlau ar-lein i ddysgu mwy am ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg. Hyd yma, mae dros 200 o unigolion wedi dod yn rhan o'r Rhwydwaith Llysgenhadon Diwylliannol lle gallent rannu eu gwybodaeth â'u ffrindiau, eu teulu, eu hymwelwyr, eu cwsmeriaid a'u cymuned.

Ymyriad arall yw diogelu enwau lleoedd Cymru sy'n rhan annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru. Gan eu bod yn arbennig o bwysig i gymeriad gweledol a chlywedol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, rydym yn cydnabod yr angen i werthfawrogi a chadw gwaddol cyfoethog ein henwau lleoedd Cymraeg. Ar sail yr ymchwil a gomisiynwyd gennym, bydd Is-adran Cymraeg 2050 a Cadw yn parhau i gymryd camau i sicrhau bod enwau Cymraeg o bob math yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo yn y dirwedd glywedol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol i Gyngor Gwynedd, fel rhan o gynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor ac i gydnabod defnydd arloesol Gwynedd o bwerau (cynllunio) Erthygl 4 newydd. Roedd hyn yn ategu gwaith i ddatblygu tystiolaeth sylfaenol, dylunio a chyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod angen caniatâd cynllunio i newid yr hyn sydd ar hyn o bryd yn dŷ annedd (prif gartref) i ail gartref neu lety gwyliau tymor byr. Mae’r Cyfarwyddyd, ei oblygiadau a’i effaith yn cael eu hystyried fel rhan o’r gwerthusiad annibynnol a bydd hyn yn parhau i fod o fudd i eraill sy’n ystyried cymryd camau tebyg [Argymhelliad 30].

Mae polisïau gosod lleol yn faterion i awdurdodau lleol a chynllunio, sy’n gorfod cael cynllun dyrannu ar gyfer pennu blaenoriaethau wrth ddyrannu tai. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall ac ymateb i anghenion tai eu cymunedau lleol, ac i flaenoriaethu’r rhai mwyaf anghenus. Wrth benderfynu ar eu cynlluniau penodol, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru roi sylw i God Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol: Dyrannu Llety a Digartrefedd. [Argymhelliad 33].

Mae cytundebau adran 106 yn gytundebau a wneir o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae cytundeb Adran 106 (A106) yn gontract preifat cyfreithiol gyfrwymol rhwng datblygwr (neu nifer o bartïon â buddiant) ac Awdurdod Cynllunio Lleol sy’n gweithredu ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio statudol. Mae cytundebau o’r fath yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyflawni rhwymedigaethau cynllunio penodol wrth roi caniatâd cynllunio ar waith ac maent o ganlyniad i drafodaethau ar y materion hyn rhwng y partïon. Dylai unrhyw gytundeb Adran 106 gydymffurfio â’r Cynllun Datblygu Lleol a’r polisïau cynllunio perthnasol [Argymhelliad 33].

## Beth ydyn ni’n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar y broses o gaffael gwasanaeth gwerthuswr annibynnol i werthuso ymyraethau’r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*. Bydd y gwaith hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o effeithiolrwydd ei dulliau gweithredu ac yn helpu i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni’r cynllun yn y dyfodol.
- Mae cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor yn cael ei weithredu ar sail yr angen i gynnal gwerthusiad annibynnol parhaus. Cyhoeddwyd yr adroddiad cam cyntaf ym mis Chwefror 2025 ac roedd yn cyflwyno theori newid a chanfyddiadau ymchwil archwiliadol, gan gynnwys canfyddiadau pobl ifanc ynghylch effaith ail gartrefi ar y Gymraeg yn yr ardal dan sylw. Bydd camau’r gwerthusiad yn y dyfodol yn ystyried yr ystod o fentrau a chamau gweithredu a’u heffaith, gan gynnwys unrhyw effaith ar y Gymraeg. Bydd y gwerthusiad yn helpu i lywio polisi cenedlaethol, gan gynnwys mewn perthynas ag ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ymyraethau sydd eisoes ar waith i gefnogi awdurdodau lleol i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys y Rhaglen Trawsnewid Trefi sy’n cynnwys grantiau, Benthyciadau Eiddo a’r Gronfa Gorfodi Eiddo Gwag; y Grant Tai Gwag; y Grant Tai Cymdeithasol; y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau; y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro; a Chynllun Prydlesu Cymru.

- Mae telerau ac amodau llythyr cynnig grant Llywodraeth Cymru eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i dderbynwyr weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a nodau *Cymraeg 2050*. Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r templed telerau ac amodau benthyciadau safonol i gynnwys y gofyniad hwn mewn perthynas â benthyciadau.
- Mewn ymateb i ymarfer ymgysylltu'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfarwyddyd Erthygl 4 yng Ngwynedd, nododd UK Finance eu bod wedi gweld effaith gyfyngol pwerau cynllunio a chyfamodau rhwystrol ar y gallu i gael morgais dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae gwaith a gomisiynwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri yn dangos mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth o effaith negyddol o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag UK Finance ar y mater er mwyn ei ddeall yn well ac ystyried ymyraethau posibl a allai gynyddu'r awydd i fenthyca ar eiddo sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau. Bydd dadansoddiad pellach o sefyllfa'r farchnad yng Nghymru yn cael ei gynnal er mwyn deall graddfa'r materion hyn yn well ac fel sail i ystyried ymyraethau priodol.

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol a byddant yn edrych ar gyfleoedd i gryfhau ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.
- Bwriedir cynnal adolygiad allanol o'r Canllawiau Costau Derbyniol (ACG) yn ystod 2025-26, a bydd Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried bryd hynny a oes angen unrhyw addasiadau ychwanegol o ran y Canllawiau hyn i helpu i ryddhau safleoedd llai.
- Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y ffordd orau o ddarparu datrysiad cyllido tymor hir ar gyfer tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â Cwmpas ar gynigion sefydlu cronfa benthyciadau.
- Byddwn yn diwygio'r Cod, *Dyrannu llety a digartrefedd: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol* i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion *Cymraeg 2050*. Byddwn hefyd yn darparu canllawiau pellach i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar ystyried y Gymraeg wrth osod tai cymdeithasol.

# 9. Cynllunio Gwlad a Thref

## Crynodeb o’r bennod ar Gynllunio Gwlad a Thref:

Yn eu pennod ar Gynllunio Gwlad a Thref [Argymhelliad 35], mae’r Comisiwn yn cydnabod y ddadl sylweddol ar y berthynas rhwng cynllunio gwlad a thref a chynllunio ieithyddol. Mae’r Comisiwn hefyd yn cydnabod y cymhlethdodau rhwng y ddwy ddisgyblaeth. Mae’r Comisiwn yn dadlau bod angen cryfhau’r cysylltiad rhwng y ddwy ddisgyblaeth. Mae’n hanfodol bod cynllunwyr iaith yn darparu cymorth a chyngor i ymarferwyr cynllunio gwlad a thref pan fo polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu neu pan fo polisïau newydd yn cael eu llunio.

Mae’r Comisiwn yn credu’n gryf y gall cynllunio gwlad a thref wneud cyfraniad gwerthfawr i gynaliadwyedd yr iaith mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Cynhaliodd y Comisiwn weithdy ar gyfer cynllunwyr iaith ac ymarferwyr cynllunio gwlad a thref i drafod y cymhlethdodau, y blaenoriaethau polisi a’r camau gweithredu y gellid eu cymryd i wneud y gwelliannau angenrheidiol i bolisïau a chanllawiau cynllunio gwlad a thref.

Bu’r Comisiwn hefyd yn adolygu nifer o ddogfennau polisi a chanllawiau a oedd yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref ac awgrymodd fod angen diwygio’r rhain. Dywedodd y Comisiwn hefyd y dylai cynllunwyr iaith a chynllunwyr trefol a gwledig wella eu sgiliau a’u gwybodaeth am ddisgyblaethau’r naill a’r llall.

Penderfynodd y Comisiwn gyhoeddi adroddiad annibynnol ar gynllunio gwlad a thref i sicrhau bod anghenion cynllunio yn cael eu hystyried ym mhob rhan o Gymru yn ogystal ag mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad ym mis Chwefror 2025.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau adroddiad annibynnol y Comisiwn ar gynllunio gwlad a thref a’i 14 o argymhellion. Byddwn yn ymateb i’r argymhellion hynny maes o law.

# 10. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Crynodeb o'r bennod ar Gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant:

Roedd y Comisiwn yn ymwybodol iawn bod cryn amrywiaeth o ran cefndir a hunaniaeth o fewn y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg sy'n wynebu anghydraddoldebau ac o gymunedau lleiafrifol yn byw mewn cymunedau Cymraeg.

Gan ddechrau o'r safbwynt y dylai cymunedau Cymraeg fod yn lleoedd y mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru ystod o bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n berthnasol i bawb yng Nghymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Er nad oeddent yn teimlo bod ei gylch gwaith yn cynnwys yr angen i graffu ar y polisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hyn ar gyfer Cymru gyfan, roedd y Comisiwn yn dadlau, am nad yw iaith yn nodwedd warchodedig, fod grwpiau iaith mewn perygl o gael eu heithrio o drafodaethau ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Hefyd, dadleuodd y Comisiwn y tybir weithiau bod gan ardaloedd gwledig a lled-wledig fel cymunedau Cymraeg eu hiaith batrymau gwahanol o nodweddion gwarchodedig i'r rheiny sy'n cael eu gweld mewn ardaloedd dinesig neu fwy trefol. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn wedi'i argyhoeddi bod digon o ymchwil yn bodoli i wirio i ba raddau y mae profiadau bywyd grwpiau lleiafrifol yn gwahaniaethu rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Yn fwy cyffredinol, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen mwy o ymchwil i ddeall y croestoriadedd o fewn grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith a rhyngddynt.

Mae adroddiad y Comisiwn yn cynnig trosolwg o ddata Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd a'r iaith Gymraeg, gan ddod i'r casgliad bod angen rhagor o ymchwil, ac yn fwy penodol, ddadansoddiad o ddata ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) neu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae'r Comisiwn yn nodi bod pennod benodol ar y Gymraeg yng *Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad at y profiadau a'r heriau unigryw y mae pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru ac mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn benodol. Ym marn y Comisiwn, byddai gwaith ymchwil pellach a dadansoddiad mwy trylwyr yn cyfoethogi'r drafodaeth ar bolisi cyhoeddus mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae adroddiad y Comisiwn hefyd yn cynnig trosolwg o ddata Cyfrifiad 2021 o ran y rhai â hunaniaeth LHDTC+ a'r iaith Gymraeg, gan ddechrau o'r safbwynt fod pobl LHDTC+ bob amser wedi bod yn rhan o gymdeithas Gymraeg. Yn wir, mae'r Comisiwn yn nodi bod gan Geredigion a Gwynedd rai o'r canrannau uchaf o bobl sy'n ystyried eu hunain yn LHDTC+ yng Nghymru. Ond, yn yr un modd â hil ac ethnigrwydd a'r Gymraeg, mae'r Comisiwn yn nodi y byddai rhagor o waith ymchwil, yn enwedig gwaith dadansoddi data

MSOA neu LSOA, yn ogystal â rhagor o dystiolaeth ansoddol, yn gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas bosibl rhwng y Gymraeg a phrofiadau bywyd y rhai â hunaniaeth LHDTC+.

Diweddodd y Comisiwn drwy wneud dau argymhelliad gyda'r nod o ddatblygu ein dealltwriaeth o'r croestoriadedd rhwng y Gymraeg a nodweddion gwarchodedig. Yn benodol, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth ystadegol o'r croestoriadau yn nata Cyfrifiad 2021, gan gynnwys dadansoddiad ar lefel MSOA neu LSOA; ac y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r dadansoddiad a gynigir gan y Comisiwn ac yn derbyn yr argymhellion [Argymhellion 36-37]. Mae Llywodraeth Cymru yn gresynu nad oedd modd i'r Comisiwn gael gafael ar ddata digonol a data tystiolaeth o dan lefel awdurdod lleol neu mewn perthynas â phrofiadau bywyd unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd dan sylw – er mwyn datblygu argymhellion manylach a mwy penodol. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y bydd dadansoddiad ystadegol pellach o ddata Cyfrifiad 2021 yn arwain at well dealltwriaeth o'r croestoriadedd a'r berthynas rhwng nodweddion gwarchodedig, natur wledig a'r Gymraeg [Argymhelliad 36].

Yn ogystal, daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd yn mynnu bod cyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, yn rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais sosioeconomaidd wrth wneud penderfyniadau strategol. Rydym hefyd yn gweithio ar hyn o bryd ar Gynllun Hawliau Pobl Anabl. Nod y cynllun hwn yw gwella mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth i bobl anabl. Bydd pobl anabl sy'n byw mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn bywyd gwaith yn eu cymunedau eu hunain, i ffynnu ac i helpu i sicrhau bod eu cymunedau'n parhau'n weithgar ac yn fywiog. Mae ymgynghoriad wedi agor yn ddiweddar gyda'r nod penodol o geisio barn siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol y Gymraeg, a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Ar sail eu mewnbwn, bydd hyn yn cyfrannu at gamau gweithredu a nodau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cynllun, er y bydd nodau a chamau gweithredu ar draws nifer o'r meysydd polisi gwahanol yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg. Bydd aelod sy'n siarad Cymraeg o'r tasglu ar gael yn ystod cyfarfodydd ymgynghori i gyflwyno'r manylion a mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau drwy ddewis iaith y cyfranogwyr.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

- Mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a chydraddoldeb. Yn benodol, mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yng ngwead ein *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a'n *Cynllun Gweithredu LHDTC+*. Ein bwriad yw i'n gwaith ym maes cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg fel ei gilydd, nid yn unig gydfodoli, ond atgyfnerthu ei gilydd.

- Mae Is-adran Cymraeg 2050 yn un o brif bartneriaid cyflawni *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*. Yn ogystal, mae Is-adran Cymraeg 2050 yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid cydraddoldeb a chynhwysiant ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- Rydym eisoes wedi cyhoeddi dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021 sy'n archwilio croestoriadedd rhwng y gallu i siarad Cymraeg a'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, gan gynnwys ar lefel awdurdod lleol [Argymhelliad 36].
- Mae rhagor o fanylion am ein gwaith ar y Gymraeg hyd yma fel rhan o gynlluniau gweithredu cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Byddwn yn parhau, lle bo'n bosibl, i gynnwys nodweddion gwarchodedig pan fyddwn yn dadansoddi data am y Gymraeg, o arolygon ac o ffynonellau eraill fel data addysgol.
- Drwy ein cyhoeddiad sydd ar y gweill 'Cymraeg 2050: Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil', byddwn yn ceisio rhoi gwybod i'r gymuned ymchwil allanol am y mathau o dystiolaeth a fydd fwyaf defnyddiol wrth lywio ein penderfyniadau. Bydd y cyhoeddiad yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddiddordeb Llywodraeth Cymru mewn tystiolaeth am y croestoriadedd rhwng y Gymraeg a nodweddion gwarchodedig.
- Yn unol ag argymhelliad y Comisiwn, byddwn yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i roi sylw i'r argymhelliad ac i wneud rhagor o awgrymiadau polisi. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn defnyddio ymchwil sy'n bodoli'n barod a gwaith ymchwil parhaus. Wrth sefydlu'r grŵp, byddwn yn cynnwys grwpiau rhanddeiliaid sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys grwpiau rhanddeiliaid sydd eisoes yn canolbwyntio ar y Gymraeg fel rhan o strwythurau gweithredu *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*. Bydd sicrhau profiadau bywyd pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli'n draddodiadol yn hanfodol i lwyddiant y gwaith hwn. [Argymhelliad 37].

# 11. Addysg Gymraeg

## Crynodeb o'r bennod ar Addysg Gymraeg:

Yn y bennod ar addysg cyfrwng Cymraeg (Argymhellion 38 – 49), mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y dirwedd ieithyddol wedi newid yn ein cymunedau Cymraeg ers traean olaf yr ugeinfed ganrif. Mae'r Comisiwn yn credu'n gryf bod addysg cyfrwng Cymraeg yn gallu diogelu, hybu a chreu siaradwyr Cymraeg newydd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn nodi nad yw'r ddarpariaeth gyfredol yn ddigonol i gynnal yr iaith ar lefel gymunedol yn y dyfodol.

Mae pob plentyn yng Nghymru yn haeddu bod yn siaradwr Cymraeg, ac wrth i siwrnai addysgol plentyn ddechrau cyn addysg statudol, mae'r Comisiwn yn credu, mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, y dylai awdurdodau lleol annog a chefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn darpariaeth addysg gynnar. Dylai plant sy'n byw mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gaffael y Gymraeg yn hyderus a bod yn llythrennog yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig pan fyddant yn gadael addysg statudol. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell y dylid gosod targed er mwyn i ysgolion mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch allu darparu addysg gynhwysol drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr o bob cefndir. Yn y cyfamser, disgwylir i ysgolion symud ymlaen ar hyd continwwm ieithyddol. Wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, maent yn dod i lai o gysylltiad â'r iaith, ac wrth iddynt symud o addysg gynradd i addysg uwchradd, mae canran y disgyblion sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gostwng, ac mae gostyngiad pellach i'w weld mewn addysg ôl-14 ac unwaith eto mewn addysg ôl-16. Mae'r Comisiwn yn dadlau ei bod yn allweddol cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ystod o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y grwpiau oedran hyn, gan y bydd yn debygol o gynyddu nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle.

Mae yna hefyd argymhellion ar gyfer Estyn [Argymhellion 44-45], sy'n nodi bod ganddynt rôl bwysig i ddatblygu canllawiau arolygu atodol ar gyfer arolygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac archwilio'r cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn erbyn nodau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Dywedodd y Comisiwn fod angen gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y ffaith y dylid gwerthuso prosiect y Siarter Iaith gan fod ganddo rôl i atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol. At hyn, dylai canolfannau trochi hwyr gael adnoddau digonol i gyflawni eu llawn botensial gan eu bod yn hanfodol i gynnal a chefnogi'r seilwaith addysg cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod angen diwallu anghenion y gweithlu addysg.

Mae angen ymchwil ychwanegol i ddeall y sefyllfa ynghylch addysg drydyddol a galwedigaethol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Dylai'r ddarpariaeth o gyrsiau a hyfforddiant ddiwallu anghenion yr economi leol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr ardaloedd hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ("y Bil") yn ymwneud yn uniongyrchol ag Argymhellion 38, 39, 42 a 46. (Mae cyfeiriadau at y Bil yn gyfeiriadau at y Bil fel y'i pasiwyd gan Senedd Cymru ar 13 Mai 2025. Bydd y Bil yn dod yn gyfraith pan fydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol).

Prif amcan y Bil hwn yw cyfrannu at y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy geisio sicrhau bod pob disgybl yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol a hyderus, o leiaf erbyn iddynt gyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol. Y nod yw bod pob disgybl yn datblygu sgiliau llafar sy'n cyfateb i lefel B2 y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd.

Yn gryno, mae'r Bil yn gwneud y canlynol:

- Darparu sail statudol ar gyfer y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy fynnu bod strategaeth y Gymraeg (dan 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn cynnwys targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg o leiaf erbyn 2050 yn ogystal â thargedau eraill sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol.
- Sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd.
- Nodi tri chategori iaith ar gyfer ysgolion sydd ag isafswm o addysg Gymraeg (sy'n cynnwys addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ogystal ag addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg) i'w darparu ym mhob un:
    - categori "Cymraeg yn bennaf" (80%)
    - categori "Iaith Ddeuol" (50%)
    - categori "Saesneg yn bennaf, Cymraeg yn rhannol Gymraeg" (10%)
- Gosod nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori iaith.
- Cysylltu cynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol (drwy roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel awdurdod lleol (drwy roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol), ac ar lefel leol (gan roi dyletswydd ar ysgolion i baratoi cynlluniau darparu addysg Gymraeg).
- Sefydlu Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg fel corff statudol sy'n gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oed) i ddysgu Cymraeg.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

- Mae gennym ymrwymiadau i agor 23 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac ehangu o leiaf 25 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled Cymru dros y degawd nesaf – gydag 8 awdurdod lleol yn canolbwyntio ar symud eu hysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

- Nod y Siarter Iaith yw ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau, yn enwedig y tu allan i leoliadau dysgu ffurfiol.
- Cafodd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ei basio gan y Senedd ar 13 Mai 2025.
- Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i ddynodi categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion. Mae hefyd yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â faint o addysg Gymraeg a ddarperir ac i bennu nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori.
- Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, gynyddu isafswm y ddarpariaeth addysg Gymraeg dros amser wrth i ffactorau fel argaeledd y gweithlu newid.
- Ers 2021, mae'r buddsoddiad drwy'r grant trochi hwyr (£8.8m) wedi galluogi pob awdurdod lleol i gynnig darpariaeth trochi hwyr yn eu hardal. Rhaid i ni ddathlu'r llwyddiant hwn. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adeiladu ar y gwaith hwn ac yn rhoi neges glir bod trochi hwyr yn rhan bwysig o'r cynnig addysg lleol.
- Mae llwyddiant gweithredu'r Bil yn dibynnu ar gapasiti'r system addysg. Mae angen datblygu gweithlu sydd â'r gallu ieithyddol priodol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod heriau o ran y gweithlu addysg – ac mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cyhoeddi ei bod yn datblygu cynllun gweithlu addysg strategol i Gymru.
- [Argymhelliad 40] Un o nodau pwysicaf *Cymraeg 2050* yw ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ]. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Mudiad Meithrin i arwain y gwaith ehangu hwn drwy ei raglen Sefydlu a Symud. Yn ogystal â model traddodiadol y Cylch Meithrin, sefydlwyd Cylchoedd newydd mewn meithrinfeydd dydd a grwpiau chwarae cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn fodd i sesiynau Cylch Meithrin gael eu cynnig yn y lleoliadau cyfrwng Saesneg hyn, a rhoddir cefnogaeth i'r staff drwy raglen hyfforddiant trochi iaith Mudiad Meithrin, sef Croesi'r Bont. Fel rhan o gam cyntaf y gwaith o ymestyn gofal plant o safon i bob plentyn dwyflwydd oed yng Nghymru, mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei hehangu i gynnwys 2,500 yn fwy o blant o dan bedair oed.
- Er mwyn cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu a *Cymraeg 2050*, rhaid cefnogi gwaith i ehangu'r gweithlu gofal plant cyfrwng Cymraeg i alluogi mwy o blant dan 5 oed i gael gafael ar gyfleoedd chwarae, dysgu a gofal blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i gefnogi cymwysterau gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn barhaus, ar gyfer 100 o ddysgwyr Lefel 3 a 50 o ddysgwyr Lefel 5 drwy'r rhaglen Cam wrth Gam. Mae Mudiad Meithrin yn rheoli'r 22 o aseswyr a thiwtoriaid gyda'r cymwysterau, y cymwyseddau a'r sgiliau iaith sy'n angenrheidiol i gyflwyno'r set newydd o gymwysterau.

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Cafodd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ei basio gan Senedd Cymru ar 13 Mai. Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu darpariaethau'r Ddeddf.

- Y dasg gyntaf fydd i Weinidogion Cymru baratoi Cod i greu un dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR).
- Bydd hyn yn helpu unigolion, gan gynnwys dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr i ddeall yn glir beth y gall defnyddwyr y Gymraeg ei wneud ar bob cam o'u taith ieithyddol.
- Y nod erbyn 2050 yw bod disgyblion ysgol yn gadael addysg statudol fel siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus – waeth beth yw categori iaith yr ysgol y maent wedi'i mynychu. Rydym am i bob disgybl, erbyn 2050, feddu ar sgiliau llafar ar lefel B2 o leiaf yn y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR).
- Ein nod yw ymgynghori ar y Cod newydd yn yr hydref.
- Byddwn hefyd yn ymgymryd â gwaith i baratoi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg y Gymraeg a Dysgu Cymraeg a fydd, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys targedau i awdurdodau lleol mewn perthynas â chynyddu nifer y disgyblion oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg mewn ysgolion categori "Iaith Gymraeg yn bennaf".

# 12. Cynllunio ieithyddol cymuned

## Crynodeb o'r bennod ar Gynllunio ieithyddol cymunedol:

Yn eu pennod ar gynllunio ieithyddol yn y gymuned [Argymhellion 50–57], mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio ieithyddol cymunedol fel cyfrwng i ddylanwadu ar y defnydd rhyngbersonol o'r Gymraeg ac i greu sylfaen gryfach i'r iaith ffynnu. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd yn bwrpasol, mae angen cynllunio ieithyddol egnïol yn gymunedol sy'n cael ei gefnogi gan bolisi cyhoeddus, adnoddau digonol a'r angen i fod yn arloesol. Er mwyn sicrhau bod egwyddorion cynllunio ieithyddol yn cael eu cymhwyso'n llwyddiannus ar lefel gymunedol, dywedodd y Comisiwn y dylai'r ymyraethau presennol gael eu hail-flaenoriaethu a'u hail-ddylunio ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

Argymhellodd y Comisiwn y dylid diwygio Safonau'r Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fel bod gofyniad newydd yn cael ei osod o dan y 'Safonau Hybu' i sicrhau cynllunio ieithyddol effeithiol yn y gymuned mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 51]. Mae hefyd angen gwell data a allai fod yn werthfawr i ddeall anghenion ieithyddol y gymuned, yn ogystal â data ar ystod o faterion megis sgiliau, agwedd, hyder a defnydd iaith.

Mae trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn hanfodol os yw'r iaith am oroesi. Mae cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn hanfodol ac mae'r gwaith a wneir gan y mentrau iaith, yr Urdd a mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc er enghraifft yn bwysig er mwyn creu cyfleoedd cymdeithasol. Cred y Comisiwn hefyd fod gan gyrff llywodraethu chwaraeon rôl i annog defnydd pellach o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Mae gennym amrywiaeth o fudiadau cynllunio ieithyddol cymunedol, sydd â chyfraniad pwysig i gefnogi'r iaith ar lefel gymunedol. Mae'r mudiadau hyn yn aml yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o grwpiau cymunedol, asiantaethau ac awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid darparu mwy o adnoddau i'r mudiadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol cymunedau. Roedd y Compendiwm a oedd wedi'i gynnwys yn adroddiad y Comisiwn yn tynnu sylw at y ffaith bod newid ieithyddol yn digwydd mewn ardaloedd a oedd yn cael eu hystyried yn ganolfannau cymharol ddiogel o ran defnydd iaith. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cynnal cynllun peilot mewn ystâd dai yn y gogledd-orllewin drwy ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd, gan gynnwys asiantaethau cymorth, cynllunwyr ieithyddol cymunedol a sefydliadau addysg bellach, i helpu i ddatblygu ymyraethau sy'n gallu gwrthdroi'r tueddiadau ieithyddol diweddar.

## Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn deall ac yn cytuno'n llwyr â'r Comisiwn o ran pwysigrwydd cynllunio ieithyddol cymunedol. Rydym eisoes yn buddsoddi mewn amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u hymroddiad. Mae Llywodraeth Cymru yn

cytuno bod cynlluniau effeithiol sy’n seiliedig ar leoedd yn cael eu cynllunio i fod yn gydweithredol gan ganolbwyntio ar anghenion a materion penodol ardal ddaearyddol sydd wedi’u diffinio’n glir. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod cynllunio ieithyddol cymunedol yn rhan annatod o’r dull gweithredu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch [Argymhelliad 50].

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i ddatblygu fframwaith i fesur effaith cynllunio ieithyddol cymunedol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol. Rydym eisoes wedi creu pecyn mesur canlyniadau mewn partneriaeth â’r mentrau iaith a byddwn yn gwneud rhagor o waith i ddatblygu’r pecyn ymhellach. Rydym hefyd yn cytuno bod trosglwyddo iaith o fewn y cartref a chymdeithasoli y tu allan i’r teulu yn hanfodol i gynllunio ieithyddol cymunedol [Argymhelliad 52].

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno bod cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio’r Gymraeg yn hyderus yn ganolog i gynllunio ieithyddol cymunedol a bydd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol [Argymhelliad 53].

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod rôl clybiau chwaraeon ar lefel gymunedol. Mae argymhelliad y Comisiwn at sylw cyrff llywodraethu chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg i gefnogi ac annog sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon, gan gynnwys Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, i ymestyn eu cynigion Cymraeg. Mae Chwaraeon Cymru yn ystyried y gwaith hwn yn rhan bwysig o’i ddyletswyddau iaith Gymraeg, fel corff cyhoeddus ynddo’i hun, a thrwy annog datblygu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg i gymryd rhan mewn chwaraeon yn y sector ehangach. Nid oes un ffynhonnell ddata ar gael i gasglu cymhwysedd ieithyddol hyfforddwyr ac ni fyddai creu un yn ymarferol yn ariannol [Argymhelliad 55].

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i gynnal cynllun peilot mewn ystâd tai cymdeithasol yn y gogledd-orllewin mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol [Argymhelliad 57].

## Beth ydyn ni’n ei wneud?

- Rydym wedi ymrwymo i ddulliau seiliedig ar leoedd, ac mae hyn yn thema ganolog i’n gweledigaeth ar gyfer datblygu cymunedol.
- Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu Safonau'r Gymraeg a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn ystyried a oes angen diwygio’r Safonau Hybu. Mae’r Bil yn cydnabod cyfraniad y safonau hyn at gyflawni’r targedau yn Rhan 1 o’r Bil, a fydd yn cynnwys targedau ar gyfer cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn gymdeithasol. Bydd cyfle penodol fel rhan o’r adolygiad o Safonau Hybu i ystyried sut gall awdurdodau lleol sicrhau bod modd ystyried y targedau a nodir yn Rhan 1 o’r Bil wrth lunio eu strategaethau hybu. Bydd hyn yn sicrhau bod strategaethau’n cyd-fynd â gofynion y Bil ac yn cyfrannu at gyflawni ei nodau, gan helpu i sicrhau effaith gadarnhaol ar y defnydd o’r Gymraeg, gan gynnwys yn gymdeithasol. [Argymhelliad 51]

- Mae nifer o dderbynwyr grant sy'n gweithio ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol wedi cael cynnydd o 5% o leiaf yn eu cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Yn ogystal, mae'r clybiau ffermwyr ifanc, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr a rhai o'r mentrau iaith wedi cael dros 5% o gyllid ychwanegol. Nod y cynnydd yn y grant yw cefnogi cynllunio ieithyddol ar lefel gymunedol. Mae'r mentrau iaith yn un o'n derbynwyr grant allweddol sy'n canolbwyntio ar gynllunio ieithyddol cymunedol ac fe'u sefydlwyd gan gymunedau i ddatblygu mentrau newydd sy'n cefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos ac yn annog y mentrau iaith ymhellach i chwilio am gyfleoedd cyllido yn y sector sosioeconomaidd.

## Beth rydym yn mynd i'w wneud?

- Byddwn yn gweithio gyda Mentrau Iaith Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddiweddaru'r pecyn mesur canlyniadau er mwyn datblygu fframwaith i fesur effaith ymyraethau cynllunio ieithyddol cymunedol. [Argymhelliad 52].
- Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o dreialu ymyraethau trosglwyddo iaith sy'n seiliedig ar ymchwil ac sy'n defnyddio methodolegau gwyddor ymddygiad i helpu rhieni a theuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant. [Argymhelliad 53].
- Bydd Grŵp Cyfranogi Llywodraeth Cymru ar Weithredu'r Gymraeg, sy'n rhan o Fwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid, yn cwblhau ei waith ym mis Medi 2025. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn ogystal â grwpiau perthnasol eraill ar ôl hynny. Yn ogystal â gweithio gydag awdurdodau lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r sector ieuenctid gwirfoddol i gryfhau ei gallu cynllunio ieithyddol cymunedol [Argymhelliad 54].
- Fel y nodir o dan Argymhelliad 20, mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r adolygiad o safonau sy'n ofynnol gan y Bil gael ei gwblhau o fewn 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cyhoeddi'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Ystyrir y byddai'n gynamserol diwygio safon 145 cyn cynnal yr adolygiad hwn. Fel y nodir o dan Argymhelliad 20 uchod, byddwn yn ystyried priodoldeb y geiriad arfaethedig os yw'r adolygiad o Safonau Hybu yn awgrymu bod angen diwygio safon 145 [Argymhelliad 51].
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â rhanddeiliaid perthnasol ar hyn o bryd a byddwn, mewn cydweithrediad â'r partneriaid hyn, yn cyhoeddi rhagor o fanylion am leoliad y cynllun peilot arfaethedig yn y dyfodol agos. Drwy gyflwyno'r cynllun peilot, byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus, asiantaethau cefnogi a sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys ein derbynwyr grant *Cymraeg 2050*. Yr uchelgais yw i'r prosiect peilot gael ei berchenogi'n llawn gan y gymuned leol sydd wrth gwrs yn deall yn well anghenion cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol yr ardal [Argymhelliad 57].

# Atodiad 1: Rhestr argymhellion

## Argymhelliad:

### Egwyddorion cyffredinol

**Argymhelliad 1**: Iaith genedlaethol yw'r Gymraeg sy'n perthyn i bawb yng Nghymru yn ogystal ag i'w siaradwyr yng ngweddill y byd. Er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith genedlaethol fyw, mae angen ei chryfhau fel iaith gymunedol. Dylid atgyfnerthu cymunedau Cymraeg, a chryfhau hefyd gynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg, a dylai polisi cyhoeddus adlewyrchu'r nodau hyn yn llawn.

### Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ddynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' yng Nghymru.

**Argymhelliad 3:** Dylid mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

- dwysáu'r ystyriaeth a wneir o'r Gymraeg o fewn fframwaith polisi.
- caniatáu ymyraethau ac amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- sicrhau fod yr amrywiaeth polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn.
- rhoi grymoedd angenrheidiol i rymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith.

**Argymhelliad 4:** Ni ddylai dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch olygu na wneir darpariaeth gyfanfydol (sy'n weithredol ymhob rhan o diriogaeth Cymru) ar gyfer y Gymraeg mewn nifer o feysydd polisi. Mewn materion o'r fath, ni ddylai fod rhaid amrywio polisi.

**Argymhelliad 5:** Dylai ardal gael ei dynodi fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr yn yr ardal yn hafal i neu'n uwch na throthwy cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny dylai fod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddynodi ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw ardal yn ffinio ar ardal o'r fath, neu ar sail dwysedd siaradwyr Cymraeg fel canran o'r boblogaeth yno.
Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel a ganlyn:

<u>'Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'</u>

(1) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi ardal o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno yn hafal i neu'n uwch na X%.

(2) Gall awdurdod lleol hefyd ddynodi ardal arall o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

(a) os ydyw'n ffinio ag ardal a ddynodir yn unol ag isadran (1) uchod.

(b) os ydyw'n ystyried y dylid gwneud hynny ar sail dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno fel canran o'i

phoblogaeth, hyd yn oed os yw'r ganran honno yn is na X%.

(3) Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw arbennig i hyfywedd y Gymraeg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

(4) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth sy'n berthnasol i'w dyletswyddau a'u grymoedd o dan yr adran hon.

**Argymhelliad 6:** Dylai fod rhagdybiaeth o blaid dynodi X% (sef y trothwy a grybwyllir yn argymhelliad 5) fel 40%. Dylai Llywodraeth Cymru wneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth yw X% yn sgil cyhoeddi rhagor o ganlyniadau gwaith ymchwil Prosiect BRO, ac wrth ddwyn i ystyriaeth hefyd sylwadau academyddion ac ystadegwyr eraill, ac wedi ymgynghori â rhan-ddeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth gynradd newydd er mwyn sefydlu'r fframwaith ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gellid nodi pa ganran sy'n cyfateb i X% (sef y trothwy a grybwyllir yn argymhelliad 5), a beth yw'r diffiniad o 'ardal', mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 8:** Dylid sefydlu uned oddi mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu a chydlynu polisi cyhoeddus perthnasol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid sefydlu cyngor neu banel o arbenigwyr fyddai â sgiliau a phrofiad mewn gwahanol feysydd perthnasol (fel yr economi, tai, datblygu cymunedol ayyb) er mwyn cynghori'r uned.

## Economi

**Argymhelliad 9**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod strategaeth datblygu economaidd yn cael ei llunio a'i gweithredu sydd wedi ei theilwra'n benodol ar gyfer anghenion economaidd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r strategaeth ychwanegu gwerth at bolisi economaidd presennol drwy hyrwyddo dulliau ychwanegol o ddatblygu economaidd, gan gynnwys blaenoriaethu polisïau a gweithgarwch a fydd yn darparu ar gyfer anghenion sylfaenol y boblogaeth a lles aelwydydd (gan gynnwys gwella isadeiledd gwasanaethau, isadeiledd cymdeithasol, incwm gweddillol, a chynllunio ieithyddol effeithiol).

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cefnogaeth ychwanegol i fentrau a busnesau cymunedol er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys:

- cymorth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer tyfu, cynnal a rheoli mentrau ar raddfa fwy.
- hwyluso mynediad at asedau a ffynonellau cyllido.
- cymorth i ddatblygu rhwydweithiau a phrosesau ar gyfer datblygu partneriaethau.

- rhagor o gymorth i gymunedau a gweithluoedd brynu neu berchnogi cyfran o fusnesau yn y gymuned sydd yn cael eu gwerthu.

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi amaethyddol. Dylid sicrhau cefnogaeth i'r fferm deuluol, a bod egwyddor pwysigrwydd y fferm deuluol yn cael ei hadlewyrchu mewn polisïau eraill megis polisi amgylcheddol.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun sydd yn blaenoriaethu budd cymunedol a gweithgarwch cynaliadwy o fewn y sector ymwelwyr ynghyd â hyfywedd y Gymraeg. Yn ogystal, dylai egwyddorion *Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035* gael eu hystyried gan awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol eraill.

**Argymhelliad 13:** Dylai byrddau iechyd a phrifysgolion fabwysiadu a chynyddu nifer cynlluniau sy'n hybu cyflogaeth leol. Dylid sicrhau mynediad unigolion at gyrsiau hyfforddi a llwybrau gyrfaol mewn modd hyblyg, trwy gydol eu gyrfaoedd. Dylid rhannu arfer da er mwyn cefnogi datblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol sicrhau fod gwariant cyhoeddus, drwy grantiau a phrosesau caffael, yn gwarantu lles aelwydydd mewn cymunedau lleol, gwerth cymdeithasol a bod cyfleoedd yn cael eu creu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Dylid anelu at gynyddu capasiti a datblygiad busnesau cynhenid. Pan fo'n ymarferol bosibl, felly, dylai cyllid cyhoeddus mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

- gefnogi prosesau defnydd a chaffael y Gymraeg.
- gefnogi prosesau caffael a chadwyni cyflenwi lleol.
- sicrhau budd cymunedol.
- greu neu gynnal gofodau Cymraeg.
- gyfrannu'n briodol i 'naws am le'.
- geisio, mewn rhai modelau economaidd, uchafu ymwneud y busnes â'r gymuned a'r gweithlu lleol, neu berchnogaeth y gymuned a'r gweithlu lleol ohono.

**Argymhelliad 15:** Er mwyn mynd i'r afael ag allfudo pobl ifanc o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau:

- fod gwybodaeth a data yn cael eu casglu'n barhaus am bobl ifanc a mudoledd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- fod gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o elfennau penodol megis pwy sydd yn symud, o ble, i ble, pryd a pham; pa gymorth a allai gymell pobl i aros neu ddychwelyd; sut i dargedu ac atynnu pobl sydd fwyaf tebygol o gefnogi'r economi a'r iaith mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch; a sut i helpu a chroesawu siaradwyr Cymraeg eraill i ymgartrefu yno.
- fod cynllun cyfathrebu a chymorth parhaol yn cael ei ddatblygu er mwyn cymell pobl ifanc i aros, dychwelyd neu ymsefydlu. Dylid seilio'r cynllun ar ddata ac ymchwil pellach am ddyheadau a phenderfyniadau pobl ifanc, gan ddatblygu naratif gadarnhaol, a chan alinio gydag

anghenion y farchnad lafur yn ogystal â blaenoriaethau a dyheadau pobl ifanc.

Dylai Llywodraeth Cymru osod y cyfrifoldeb ar un corff i gyflawni a chydlynu hyn.

**Argymhelliad 16:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff i arwain a chydlynu ystod o weithgarwch ym maes datblygu'r economi a'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai ei ffiniau felly yn ymestyn y tu hwnt i bedair sir gyfredol rhaglen ARFOR. Dylai'r corff feddu ar arbenigedd o ran cynllunio ieithyddol a datblygu economaidd.

Dylai cylch gorchwyl y corff hwn gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer:

- datblygu ystod o bolisïau neu strategaethau datblygu economaidd yng nghyd-destun ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- prif ffrydio polisïau economaidd mewn perthynas ag ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- dylanwadu ar strwythurau datblygu economaidd ehangach.
- datblygu partneriaethau a rhannu capasiti ac arbenigedd ar lawr gwlad.
- datblygu'r ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg.
- arwain a chydlynu ymdrechion i ddenu pobl ifanc i aros, dychwelyd neu ymsefydlu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er mwyn ysgogi mentergarwch a gwrthweithio diboblogi.

Dylai'r corff hwn fod ar ffurf un o'r ddau opsiwn isod:

Opsiwn 1: Yn yr opsiwn hwn, sefydlir ARFOR, neu gorff tebyg i ARFOR, yn endid gorfforedig barhaol a fyddai'n meddu ar ei gweithrediaeth ei hun. Byddai gan awdurdodau lleol gynrychiolaeth ar ei fwrdd, ond byddai'n annibynnol ar awdurdodau lleol unigol. Gellid hefyd gryfhau ei gapasiti drwy drosglwyddo iddo gyfran o arian rhaglenni prif ffrwd sydd ar gael ar gyfer datblygu economaidd yn rhanbarthol. Byddai corff o'r fath yn gerbyd addas ar gyfer cyflawni'r amcanion uchod heb darfu'n ormodol ar y gwead o strwythurau datblygu economaidd sydd eisoes yn bodoli.

Opsiwn 2: Yn yr opsiwn hwn, byddai'r corff yn endid lefel uwch gan greu asiantaeth datblygu economaidd ar gyfer y gorllewin. Byddai'n cael ei gyfundrefnu drwy fwrdd o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb a chyd-gynllunio strategol. Gellid trosglwyddo i'r corff arian ac adnoddau o raglenni prif ffrwd Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo datblygu economaidd yn rhanbarthol. Gellid ystyried cryfhau ei gapasiti ymhellach drwy drosglwyddo iddo rai swyddogaethau datblygu economaidd ychwanegol.

Yng nghyd-destun Opsiwn 2, dylid osgoi sefyllfa lle mae polisïau economaidd, cynllunio gwlad a thref, a thrafnidiaeth yn cael eu datblygu ar wahân yn ôl amserlen wahanol. Gellid felly osod gofynion ar awdurdodau lleol i ymgynghori â'r corff newydd hwn yn y meysydd hynny. Gellid hefyd osod gofynion ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ymgynghori gyda'r corff wrth iddynt ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Argymhelliad 17**: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o’r rhyng-berthynas rhwng yr economi a’r Gymraeg. Dylai’r ganolfan gydlynu a datblygu rhaglen ymchwil a data strategol er mwyn cefnogi gwaith polisi ehangach mewn perthynas â’r economi. Gallai’r ganolfan gael ei lleoli oddi mewn i’r corff a grybwyllir yn argymhelliad 16.

### Gweithleoedd Cymraeg

**Argymhelliad 18**: Dylai sefydliadau sector cyhoeddus ddefnyddio fframwaith cyffredin ar gyfer mesur hyfedredd yn y Gymraeg er mwyn cefnogi gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu, ac fel rhan o’r broses recriwtio. Dylai’r fframwaith hwn fod yn seiliedig ar y CEFR.

**Argymhelliad 19:** Dylai arweinwyr cyrff cyhoeddus yng Nghymru ddilyn cwrs ‘Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog’. Dylai Academi Cymru hefyd ddatblygu cwrs ‘Arwain mewn Cymuned Gymraeg’ a fyddai’n addas ar gyfer arweinwyr sefydliadau a gweithleoedd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gallai cwrs o’r fath fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer arweinwyr cymunedol, y trydydd sector a’r sector preifat yn yr ardaloedd hynny.

**Argymhelliad 20:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn sicrhau fod sefydliadau sector cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r Mesur mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn datgan beth yw eu defnydd o’r Gymraeg fel iaith fewnol, a’r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn symud y sefydliad o dan sylw ar hyd continwwm ieithyddol o fewn fframwaith amser penodol.

### Datblygu cymunedol

**Argymhelliad 21:** Dylai Llywodraeth Cymru ddyfeisio a chefnogi rhaglen i ledaenu modelau datblygu cymunedol llwyddiannus ar draws ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan ddefnyddio arbenigedd ac arfer da sydd eisoes yn bodoli’n lleol. Gellid rhoi modelau llwyddiannus ar waith mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.

**Argymhelliad 22:** Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyllido perthnasol eraill newid y drefn bresennol o ddyfarnu nawdd i fudiadau a grwpiau cymunedol fel bod y cyrff hynny yn gallu cynllunio prosiectau tymor canolig a hirdymor. Yn bennaf, mae angen cynyddu cyfnod grantiau presennol o flwyddyn i dair blynedd er mwyn sicrhau hirhoedledd a llwyddiant cynlluniau.

**Argymhelliad 23:** Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi’n ariannol mewn mentrau cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch drwy ddarparu grantiau a/neu fenthyciadau hirdymor iddynt ar raddfeydd ffafriol. Dylid sicrhau fod y broses o drosglwyddo asedau i’r gymuned yn llesol i’r Gymraeg, drwy osod amodau a gofynion ar grantiau a/neu fenthyciadau fel bod cyfalaf cymdeithasol y Gymraeg yn ganolog i unrhyw gynllun.

**Argymhelliad 24:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth i helpu grwpiau cymunedol ddatblygu rhwydwaith neu rwydweithiau a all eu cynorthwyo i asesu a chynyddu cymhwysedd a chapasiti yn eu meysydd gwahanol, gan rannu arfer da ac arbenigedd ar draws y rhwydwaith.

**Tai**

**Argymhelliad 25:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod canllawiau a thempled yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn cynnwys meini prawf sydd yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Argymhelliad 26:** Dylai awdurdodau lleol sicrhau fod pob cynllun sydd yn y Prosbectws Tai Cymdeithasol yn cynnwys tystiolaeth o anghenion tai lleol. Dylid cynnal asesiad cymunedol o'r anghenion am dai a hynny bob pum mlynedd fesul ardal cyngor cymuned neu gyngor tref. Dylai'r broses gael ei harwain gan yr Hwyluswyr Tai Gwledig.

**Argymhelliad 27:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hyblygrwydd yn y fformiwla grantiau tai cymdeithasol, ynghyd ag mewn unrhyw grant perthnasol arall, er mwyn hwyluso datblygiadau ar raddfa fechan mewn ardaloedd gwledig o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid sicrhau trwy hyn bod y tai yn fforddiadwy i'w datblygu, gan gadw o fewn Modelau Hyfywedd Safonol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 28:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn barhaol. Dylai'r cynllun fod yn weithredol ar hyd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 29:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod gwerthusiad *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor* yn ystyried yn llawn effaith ar y Gymraeg. Os yn briodol, dylid ehangu ymyraethau peilot Dwyfor i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch eraill.

**Argymhelliad 30:** Dylai awdurdodau cynllunio sy'n cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 gynnal proses werthuso rheolaidd i fonitro unrhyw sgileffeithiau anfwriadol ar y Gymraeg ac ar y farchnad dai.

**Argymhelliad 31:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa benthyciadau penodol sy'n cynnig benthyciadau llog isel, neu ecwiti mewn cynlluniau, er mwyn cynorthwyo mentrau cymunedol i brynu tir neu eiddo ynghyd â datblygu tai dan arweiniad y gymuned.

**Argymhelliad 32**: Dylai awdurdodau lleol wneud gwell defnydd o'r stoc dai ac eiddo gwag wrth ymateb i anghenion tai lleol. Dylid cyd-blethu polisïau adfywio canol tref gyda pholisïau tai, ac yn rhan o hynny, dylai amodau ar grantiau neu fenthyciadau gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Argymhelliad 33:** Dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio ystyried a ellir datblygu modelau, o ran gosod tai cymdeithasol neu wrth lunio Cytundebau Adran 106, lle gallai'r Gymraeg fod yn un ystyriaeth gadarnhaol, ochr-yn-ochr ag ystyriaethau eraill. Dylid craffu ar unrhyw fodelau a ddatblygir

er mwyn sicrhau nad oes anfantais annerbyniol i’r boblogaeth ddi-Gymraeg, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol.

**Argymhelliad 34:** Dylai Llywodraeth Cymru drafod â darparwyr morgeisi sut i wella cystadleuaeth darpariaeth morgeisi ar gyfer eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt. Dylid gosod fframwaith sy’n mesur nifer y benthycwyr sy’n cynnig morgeisi ar eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt, a’r cyfraddau llog a gynigir mewn morgeisi ar eu cyfer mewn cymhariaeth â chyfraddau llog morgeisi a gynigir mewn perthynas ag eiddo sydd heb gyfyngiad.

### Cynllunio gwlad a thref

**Argymhelliad 35:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i bolisïau a chanllawiau ym maes cynllunio gwlad a tref er mwyn cryfhau’r berthynas ag amcanion cynaliadwy yng nghyswllt y Gymraeg ac yn benodol wrth ystyried cynaliadwyedd ieithyddol cymunedol. Dylai rhai o’r newidiadau esgor ar bolisïau ac ymagweddau newydd fydd yn weithredol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac eraill ar bolisïau ac ymagweddau fydd yn weithredol trwy Gymru gyfan.
Mae’r Comisiwn yn argymell y dylid gwneud newidiadau yn y meysydd canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod *Polisi Cynllunio Cymru* yn rhoi gwell arweiniad yng nghyswllt egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn perthynas â’r Gymraeg, ac yn benodol cynaliadwyedd hirdymor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu *TAN 20* er mwyn cryfhau’r arweiniad a’r cyngor a roddir i awdurdodau cynllunio wrth iddynt baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau am ganiatâd cynllunio.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* fel bo modd rhoi gwell arweiniad yng nghyswllt cynaliadwyedd y Gymraeg, ac yn benodol cynaliadwyedd hirdymor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch wrth i awdurdodau cynllunio lunio Arfarniadau Cynaliadwyedd Integredig.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda’r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, cynllunwyr iaith a phrifysgolion i adolygu’r ddarpariaeth addysg uwch er mwyn sicrhau bod ymarferwyr, graddedigion a myfyrwyr yn meddu ar setiau sgiliau priodol yn y maes cynllunio ieithyddol mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref.

Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion llawn mewn adroddiad pwrpasol erbyn mis Rhagfyr 2024.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Argymhelliad 36:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud astudiaeth o’r croestoriadau rhwng y gallu i siarad Cymraeg a nodweddion gwarchodedig perthnasol yng Nghyfrifiad 2021. Dylai’r astudiaeth gynnwys mwy o fanylder na’r hyn sydd ar gael ar lefel yr awdurdod lleol yn unig, ac os oes modd gwneud hynny, dylai gynnwys dadansoddiad ar lefel MSOA, neu drwy gyfuno LSOAs.

**Argymhelliad 37:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn edrych ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg. Dylai'r grŵp roi ystyriaeth lawn i'r materion hyn yng nghyd-destun y Gymraeg fel iaith gymunedol ac mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid hefyd roi sylw priodol i gyd-destunau gwledig.

**Addysg Gymraeg**

**Argymhelliad 38:** Dylai pob plentyn mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch adael addysg statudol yn hyderus ac yn llythrennog yn Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a dylai hynny gael ei adlewyrchu mewn polisi cyhoeddus.

**Argymhelliad 39:** Dylid gosod nod y dylai pob ysgol o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ymhen y rhawg gynnig addysg Gymraeg gynhwysol sy'n galluogi pob disgybl o bob cefndir i gaffael y Gymraeg yn hyderus ac yn llythrennog.

**Argymhelliad 40**: Dylai awdurdodau lleol gymell a chefnogi pob lleoliad meithrin nas cynhelir a grwpiau chwarae oddi mewn i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch i ddilyn polisi lle mae darpariaeth Gymraeg sydd ar gael o safbwynt cynlluniau fel addysg gynnar, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant. Dylid buddsoddi yn y gweithlu er mwyn cyrraedd y nod.

**Argymhelliad 41**: Dylai fod bwriad fod ysgolion cynradd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ac yn y sector uwchradd dylent fod yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg (categori 3) neu Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Penodedig (categori 3P), ac eithrio yn achos ysgolion a enwir gan awdurdodau lleol am resymau eithriadol. Os nad yw ysgolion ar hyn o bryd yn y categorïau hyn, dylent fod o fewn cyfnod rhesymol.

**Argymhelliad 42**: Oddi mewn i ffiniau ieithyddol eu categori, dylai awdurdodau lleol, ar y cyd ag ysgolion, bennu'r ganran o ddarpariaeth Gymraeg y disgwylir i ddisgyblion ei derbyn mewn ysgolion penodol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r ganran hon fod yn ddigon uchelgeisiol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

**Argymhelliad 43:** Dylid cyhoeddi data manwl ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi data yn unol â gwaelodliniau categori iaith ysgolion, a mesur yn ogystal faint a pha ganran o blant wna 50% a 70% o'u haddysg trwy'r Gymraeg. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi data o'r fath ar gyfer pob ysgol (a dylent hefyd gyhoeddi'r data ar gyfer y sir gyfan yn eu CSCA).

**Argymhelliad 44:** Dylai Estyn ddatblygu canllaw arolygu atodol ar gyfer arolygu darpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys fel iaith addysg ôl-14 ac ôl-16. Dylai edrych

hefyd ar y ganran sy'n astudio cymwysterau ôl-14 ac ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhelliad 45:** Wrth weithio gydag awdurdodau lleol, dylai Estyn graffu'n ffurfiol ar gynnydd o ran darpariaeth Gymraeg yn erbyn nodau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bob dwy flynedd, gan gyflwyno eu casgliadau i Gabinet yr awdurdod lleol.

**Argymhelliad 46:** Dylai ysgolion gwirfoddol a sefydledig ddilyn polisïau cenedlaethol ac awdurdodau lleol o ran darpariaeth Gymraeg.

**Argymhelliad 47:** Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i arfarnu defnydd allgyrsiol a chymdeithasol o'r Gymraeg gan gynnwys effeithiolrwydd Siarterau Iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac i adrodd yn flynyddol arnynt. Dylai Estyn arolygu gweithrediad Siarter Iaith yng nghyd-destun ehangach yr ysgol.

**Argymhelliad 48:** Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod canolfannau trochi yn derbyn adnoddau digonol i gyflawni eu nodau.

**Argymhelliad 49:** Dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i gwrdd ag anghenion y gweithlu addysg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a hynny er mwyn sicrhau bod staff yn hyderus wrth i ddisgwyliadau o ran darpariaeth Gymraeg gynyddu mewn ysgolion.

### Cynllunio ieithyddol cymunedol

**Argymhelliad 50:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ymrwymiad i gynllunio ieithyddol cymunedol yn ei holl strategaethau sy'n ymwneud â'r maes cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yn yr un modd, dylai cynlluniau corfforaethol awdurdodau lleol, cynlluniau lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhaglenni strategol perthnasol Cyd-bwyllgorau Corfforedig roi sylw dyledus i bwysigrwydd cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan sicrhau adnoddau digonol ar ei gyfer.

**Argymhelliad 51:** Dylid yn Safon 145 Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ychwanegu gofyniad pellach at (a) a (b). Byddai (c) yn berthynol i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac yn darllen fel a ganlyn:

> (c) [rhaid i'r strategaeth gynnwys] dogfen sy'n egluro sut yr ydych yn gwneud darpariaeth benodol a phriodol ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn eich ardal, gyda phwyslais arbennig ar atgyfnerthu a chynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol.

**Argymhelliad 52:** Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag ymchwilwyr academaidd a rhanddeiliaid, ddatblygu fframwaith ar gyfer mesur effaith cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 53:** Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod trosglwyddo iaith, ar yr aelwyd ac ar ffurf cymdeithasoli iaith tu hwnt i'r teulu, yn ganolog i faes cynllunio ieithyddol cymunedol. Dylid dwyn i ystyriaeth tystiolaeth briodol (gan gynnwys tystiolaeth ryngwladol), y gwyddorau ymddygiadol, ac arfer gorau mewn meysydd cysylltiedig megis llythrennedd rhieni ac annog darllen rhwng rhieni a phlant. Dylid hefyd ymchwilio sut y gellid manteisio i'r eithaf ar y cyswllt rhwng rhieni a'r sector iechyd er mwyn trosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg.

**Argymhelliad 54:** Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod y gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn elfen ganolog o gynllunio ieithyddol cymunedol. Dylid cyd-gynllunio hyn ar lefel awdurdod lleol gyda mewnbwn gan Grŵp y Gymraeg o'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid. Yn rhan greiddiol o hyn, dylai sefydliadau perthnasol sicrhau parhad a datblygiad i waith cynllunio ieithyddol ar y lefel feicro.

**Argymhelliad 55:** Dylai cyrff llywodraethu chwaraeon osod disgwyliad ar glybiau chwaraeon (neu mewn achosion lle nad yw hynny'n bosibl gynnig arweiniad) er mwyn annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys datblygu cynlluniau i gymhwyso mwy o hyfforddwyr Cymraeg. Dylid hefyd cadw data am sgiliau iaith hyfforddwyr.

**Argymhelliad 56:** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu adnoddau sefydliadau sy'n gweithio ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol fel bod ganddynt y capasiti angenrheidiol i ymateb i anghenion ieithyddol cymunedau. Dylai unrhyw gyllid newydd fod yn seiliedig ar feini prawf yn ymwneud â gwrthweithio shifft iaith ar lefel gymunedol.

**Argymhelliad 57**: Dylid cynnal peilot ar stad o dai cymdeithasol mewn tref yng ngogledd-orllewin Cymru. Dylai'r peilot gael ei gydlynu gan landlord cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r gymuned ac ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys ystod o sefydliadau cynllunio ieithyddol cymunedol. Nod y peilot fyddai treialu ymyraethau er mwyn gwrthdroi shifft iaith ar y stad.